Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Datblygiadau mewn arferion dysgu o bell a dysgu cyfunol

## Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19

Mawrth 2021



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Senedd Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2021: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Prif ganfyddiadau** | **6** |
| **Argymhellion** | **7** |
| **1  Polisi a chynllunio ar gyfer dysgu ar-lein** | **8** |
| **2  Addysgu a dysgu gan ddefnyddio dulliau ar-lein** | **12** |
| **3  Darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol ar gyfer dysgwyr bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai â lefelau isel o lythrennedd ac iaith** | **19** |
| **4  Asesu gwaith dysgwyr ar-lein** | **20** |
| **5  Sicrhau ansawdd addysgu a dysgu ar-lein** | **22** |
| **6  Dysgu proffesiynol ar gyfer addysgu ar-lein** | **24** |
| **7  Cymorth ar gyfer staff ac arweinwyr** | **27** |
| **8  Dysgu ar gyfer y dyfodol a'r camau nesaf** | **29** |
| **Atodiad 1:  Sail y dystiolaeth** | **32** |
| **Atodiad 2: Llinell amser digwyddiadau allweddol** | **33** |
| **Atodiad 3: Adnoddau / adroddiadau defnyddiol** | **38** |
| **Geirfa** | **42** |
| **Cyfeiriadau** | **44** |

# Cyflwyniad

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan y Gweinidog Addysg ym mis Tachwedd 2020.  Mae'n darparu trosolwg o'r modd y mae colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned wedi datblygu eu harfer i gyflwyno addysgu, hyfforddiant a dysgu, naill ai fel dysgu o bell neu ddysgu cyfunol, rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021. Mae'r adroddiad yn cofnodi'r cryfderau a'r heriau parhaus sy'n wynebu darparwyr a dysgwyr, ac yn rhannu cameos o arfer sy'n dod i'r amlwg.

Y gynulleidfa fwriadedig ar gyfer yr adroddiad hwn yw Llywodraeth Cymru a'r sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith, dysgu oedolion yn y gymuned ac awdurdodau lleol.  Mae'n defnyddio sail y dystiolaeth a amlinellir yn Atodiad 1, ac yn cynnwys cyfweliadau, arsylwadau a grwpiau ffocws gyda dysgwyr, tiwtoriaid, athrawon ac aseswyr, a chwblhaodd arolygwyr bob un o'r rhain o bell.  Ymgysylltodd arolygwyr o bell â thrafodaethau proffesiynol gydag athrawon[1] am y sesiynau a arsylwyd ganddynt, lle gofynnwyd amdanynt gan staff.

Mae'r adroddiad yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau gan Estyn i rannu dysgu a chefnogi ymateb parhaus ac adferiad y system addysg o COVID-19.  Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Estyn gameos arfer sy'n dod i'r amlwg o'r sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned ar ein gwefan (Estyn, 2020b, 2020c, 2020d).

Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom gyhoeddi adroddiad ochr yn ochr â'n Hadroddiad Blynyddol 2019-2020 ar ymateb y sector i bandemig COVID-19 (Estyn, 2020a), gan roi diweddariad am ein hymgysylltiad â'r sector ôl-16, a chynnwys cameos pellach o arfer sy'n dod i'r amlwg o alwadau ymgysylltu i ddarparwyr a phartneriaethau yn ystod tymor yr hydref 2020.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cameos pellach o arfer ddiddorol o golegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.  Nid astudiaethau achos yw'r rhain, gan na allwn ni werthuso'n llawn effaith y gwaith oherwydd y cyfyngiadau ar ein gweithgareddau o ganlyniad i COVID-19.  Caiff y cameos eu cynnwys i ddangos enghreifftiau o bwyntiau a godwyd yn yr adroddiad, ac maent yn rhoi rhagflas o'r gwaith sydd wedi digwydd ledled Cymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn cyfeirio at gyhoeddiadau ychwanegol buddiol i gefnogi dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol.

[1] Mae ein geirfa yn darparu esboniad ein bod yn cyfeirio at 'athrawon' yn yr adroddiad fel term generig i ddisgrifio pob un o'r rhai sy'n cyflwyno ac yn cefnogi cynnydd dysgwyr mewn dysgu ar draws y tri sector ôl-16.

## Cefndir

Yn y rhagair i'w Adroddiad Blynyddol 2019 - 2020, dywedodd Meilyr Rowlands PAEM, (Estyn 2020e, tud.4) fod, 'misoedd olaf blwyddyn academaidd 2019 – 2020 wedi dod â heriau i addysg yng Nghymru na welsom mo'u tebyg ers cenedlaethau. Roedd yr heriau'n niferus, yn gymhleth ac yn annisgwyl. Newidiodd pandemig COVID-19 fywydau pobl, cafodd effaith enfawr ar ein heconomïau a tharfu'n fawr ar systemau addysg ledled y byd ac yng Nghymru.' Mae rhagair y Prif Arolygydd a'r adroddiad yn cynnig disgrifiad cychwynnol o'r modd y gwnaeth darparwyr addysg a hyfforddiant ar draws pob cyfnod a sector ymdopi â'r cyfnod clo cychwynnol, a sut y gwnaethant ymdrechu i gefnogi dysgwyr trwy gyfleoedd dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod o newid digynsail, a gellir gweld llinell amser o ddigwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod Mawrth 2020 – Ionawr 2021 yn Atodiad 2.

Ar 20 Mai 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020b) ei Chynllun Cadernid trosfwaol COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16. Ar 10 Mehefin, cyhoeddodd ganllawiau ychwanegol i gefnogi darparwyr i fynd i'r afael â materion allweddol wrth ailddechrau dysgu wyneb yn wyneb yn y sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru yn eang â darparwyr a phartneriaid dysgu, ac ar 31 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd fframwaith a gweledigaeth drosfwaol ar gyfer cyflwyno dysgu yn y sector ôl-16 o fis Medi 2020 (2020f). Rhagwelodd y cynllun hwn y byddai pob dysgwr yn dychwelyd at ddysgu wyneb yn wyneb, gyda darparwyr yn datblygu cyrsiau dysgu cyfunol i helpu diogelu iechyd dysgwyr a staff trwy leihau nifer y dysgwyr mewn unrhyw gampws neu leoliad penodol ar unrhyw adeg benodol.

Gan fod ffurf newydd, sy'n trosglwyddo'n haws, o feirws COVID-19 wedi ymddangos yn hydref 2020, dechreuodd Llywodraeth Cymru gyfnod clo pellach o 19 Rhagfyr 2020. Gwnaeth hyn hi'n ofynnol i ddarparwyr yn y sector ôl-16 ddychwelyd at ddarparu cyrsiau o bell. Ar 5 Chwefror 2021, cyhoeddodd y Gweinidog y bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i sicrhau bod y dysgwyr hynny yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith sy'n astudio cymwysterau sy'n arddangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol (fel y rheiny sy'n astudio sut i osod offer trydan a nwy) yn dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd dysgwyr eraill yn y sector ôl-16 yn dychwelyd i ddysgu yn raddol.

Yn ei dogfen, Fframwaith strategol ar gyfer darpariaeth ddysgu o fis Medi 2020 (Gorffennaf 2020), rhagwelodd Llywodraeth Cymru (2020f) dri cham y byddai darparwyr yn symud trwyddynt o effaith gychwynnol y cyfnod clo, i ddychwelyd at gyflwyno addysg yn arferol. Dyma'r tri cham:

- **y cam achub (Mawrth – Mehefin 2020)** pan fyddai Llywodraeth Cymru yn gwneud yn siŵr fod darparwyr wedi cael cyllid i sicrhau bod trefniadau uniongyrchol ar gyfer parhad dysgu ar waith

- **y cam adolygu (Mai – Medi 2020)** pan fyddai'r llywodraeth a darparwyr yn cynllunio ar gyfer newidiadau posibl i ddarpariaeth, cyllid a darpariaeth ddysgu o hydref 2020 a thu hwnt
- **y cyfnod adnewyddu (Medi 2020 – Mawrth 2021)** lle byddai darparwyr yn rhoi trefniadau diwygiedig ar waith ar gyfer blwyddyn academaidd 2020 – 2021, ac yn gwerthuso effaith COVID-19 ar addysg ôl-16.

I gefnogi'r sectorau ôl-16, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfres o grwpiau gorchwyl gan ddenu aelodau o addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned, yn ogystal â sefydliadau allweddol eraill. Yn ystod y camau adfer ac adnewyddu, lluniodd y grwpiau gorchwyl arweiniad i gefnogi'r sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned â datblygu dysgu cyfunol.[2]

Rhwng Tachwedd a Rhagfyr 2020, cynhaliodd Llywodraeth Cymru (2021) [arolwg o ddysgwyr ôl-16] hefyd am eu profiadau, agweddau at ddysgu a lles i'w helpu i ddeall safbwynt dysgwyr a chynllunio ar gyfer y cam adfer nesaf. Yn ymarferol, mae'r cyfnodau clo pellach wedi'i gwneud yn anodd i sectorau ôl-16 barhau ag addysgu a dysgu trwy ddysgu cyfunol, a bu'n rhaid iddynt ddychwelyd i addysgu a dysgu o bell.

At hynny, mae logisteg dychwelyd i ddysgu rhannol ar y safle a dysgu rhannol gartref, a dychwelyd yn llawn i ddysgu ar y safle yn y pen draw, mewn modd sy'n ddiogel o ran COVID-19, yn creu llawer o broblemau i bob sector. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid ôl-16 i gynllunio'r drefn ar gyfer dychwelyd i ddysgu ar y safle yn raddol a datblygu strategaethau i helpu dysgwyr yn y sectorau ôl-16 adfer eu dysgu a sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu gadael ar ôl. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn ystyriol fod angen myfyrio ar y cyfnod er mis Mawrth 2020 i adolygu'r gwersi a ddysgwyd a rhoi cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer unrhyw achosion o COVID-19 neu feirws arall yn y dyfodol.

## Cysyniadau sy'n ategu addysgu a dysgu ar-lein

Ceir cryn dipyn o ysgrifennu ac ymchwil am y gwahanol gysyniadau sy'n ategu addysgu a dysgu ar-lein, yn cynnwys dysgu o bell a dysgu cyfunol. Fodd bynnag, y brif her, yn unol â'r holl addysgu a dysgu, yw cynllunio'r dysgu mewn ffordd y gall dysgwyr fynd ati i ymgysylltu â'r pwnc, ac i'r athro allu datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r dysgwr trwy ddysgu annibynnol a rhyngweithio â chyfoedion. I gyflawni hyn, mae'n bwysig fod yr athro'n cynllunio addysgu a dysgu i fanteisio ar y dechnoleg, ond nad yw'n caniatáu i'r dechnoleg reoli'r ffordd y mae'r athro yn ymgysylltu â'r dysgwr. Mae Darlene Christopher (2015 tud.4) yn mynegi'r syniad hwn wrth ysgrifennu'r canlynol:


'Yn ystod hyfforddiant dosbarth rhithwir (a hyfforddiant ystafell ddosbarth wyneb yn wyneb o ran hynny), nid yw'r hud yn cael ei ganfod yn soffistigeiddrwydd y dechnoleg, ond ym mha mor dda y defnyddir yr offer ffisegol a rhithwir i greu a hwyluso digwyddiad dysgu. Hefyd, yr un dechnoleg sydd y tu ôl i brofiadau dysgu

[2] Cyfeirir at y canllawiau hyn yn Atodiad 3

rhithwir hynod ryngweithiol, difyr a diddorol yw'r hyn sy'n creu atebion hyfforddiant aneffeithiol a diflas sy'n ennyn beirniadaeth.

Gallwch chi ddioddef profiad yn ymwneud â meddalwedd gyflwyno wael yn rhithwir neu'n bersonol. Yr unig wahaniaeth rhwng digwyddiad hyfforddi llwyddiannus neu aflwyddiannus yw dyluniad da wedi'i gyflawni gan hwylusydd medrus. Mae'r cyfan yn ymwneud â chreu'r cyfuniad delfrydol o dechnoleg briodol, dyluniad rhagorol, a hwyluso difyr.'

Mae theori Kolb (1984) am ddysgu trwy brofiad yn adeiladu ar theori Kurt Lewin ac yn ategu cynllun llawer o gyrsiau ar-lein, yn ogystal â llawer o addysgu a dysgu wyneb yn wyneb. Mae'r theori yn cynnig bod angen i ddysgwyr weithio trwy bedwar cam i ddysgu'n effeithiol, sef: profiadau pendant, arsylwadau myfyriol, cysyniadoli haniaethol ac arbrofi gweithredol. Mae dysgu'n dechrau â'r hyn mae dysgwyr eisoes yn gyfarwydd ag ef: gall hyn fod yn ddysgu blaenorol neu'n brofiadau a gafwyd trwy ddarllen testunau perthnasol neu wylio fideos, er enghraifft. Yn yr ail gam, mae'r dysgwr yn gwneud arsylwadau am y profiad ac yn casglu data. Yn y trydydd cam, mae'r dysgwr yn ffurfio casgliadau yn seiliedig ar ystyron yn deillio o arsylwadau, ac yn y pedwerydd cam, mae'r dysgwr yn arbrofi gan ddefnyddio eu casgliadau yn deillio o'r tri cham blaenorol.



Fel rhan o gyfres o ddogfennau yn gysylltiedig â'r cynllun cadernid COVID-19 trosfwaol, yn ei dogfen Dysgu ac addysgu cyfunol: canllaw byr (Gorffennaf 2020), mae Llywodraeth Cymru (2020d, tud.1) yn mabwysiadu diffiniad Jisc o ddysgu cyfunol fel a ganlyn,

> 'Mae dysgu cyfunol yn gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau a chynnwys digidol dynamig sy'n golygu bod modd dysgu unrhyw le/unrhyw bryd.' (https://www.jisc.ac.uk/guides/creating-blended-learning-content)

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y canlynol: 'Mae symud cynnwys yr ystafell ddosbarth ar-lein yn hollol wahanol i raglen o ddysgu cyfunol wedi'i chynllunio, sydd i bob pwrpas yn integreiddio dysgu wyneb yn wyneb a gweithgareddau o bell. Mae gweithio yn y ffordd hon yn galw am sgiliau penodol gan y dysgwyr a gan y staff. Rydym yn cydnabod bod hon yn broses barhaus ac y bydd hi'n cymryd amser i gael dysgu cyfunol o safon uchel ar draws y sector cyfan.'

Wrth gasglu gwybodaeth a thystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, canfuom fod llawer o ddarparwyr wedi dehongli a chymhwyso'r derminoleg yn gysylltiedig â dysgu o bell a dysgu cyfunol mewn amrywiaeth o ffyrdd o fewn sefydliadau a phartneriaethau, ac ar eu traws.  Efallai na fydd yr hyn y mae un darparwr yn cyfeirio ato fel 'dysgu hybrid' o reidrwydd yn cyfeirio at y ffordd unfath o gyflwyno mewn gwahanol sefydliad.  Felly, at ddibenion yr adroddiad hwn, rydym wedi darparu geirfa o derminoleg rydym yn ei defnyddio yn y cyhoeddiad hwn.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae'r pandemig wedi achosi newid amlwg mewn addysgu a dysgu yn y sectorau ôl-16. Mae darparwyr a'u staff ar draws yr holl sectorau ôl-16 wedi dangos ymagwedd gadarn at ddysgwyr a'u lles.

2 Er y bu gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol ers dechrau'r pandemig, mae ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar-lein yn parhau i amrywio, ar y cyfan.

3 Mae darparwyr a'u staff ar draws pob sector wedi dangos llawer o ymroddiad i ddatblygu eu medrau mewn addysgu ac asesu o bell a chyfunol.

4 Roedd y darparwyr hynny a oedd wedi dechrau cyflwyno elfen o addysgu a dysgu o bell neu ddysgu cyfunol yn eu cynnig cwricwlwm cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020 mewn sefyllfa gryfach i gyflwyno darpariaeth arall ar-lein yn gyflym.

5 Mae cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol wedi achosi newid yn y modd y mae darparwyr a staff yn sicrhau ansawdd cyrsiau ar-lein ac yn rhannu arfer. Mae'r defnydd gwell o dechnoleg yn galluogi cyfleoedd ar gyfer mwy o fyfyrio unigol, a rhannu arfer arloesol ymhlith staff ar draws y darparwr.

6 Roedd partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned dan anfantais o ran cyflwyno dysgu oedolion ar-lein, oherwydd gan amlaf, nid oes ganddynt dimau cymorth dysgu TG canolog, amgylcheddau dysgu rhithwir na mynediad at adnoddau ar-lein a rennir i gefnogi cynllunio a chyflwyno i ddysgwyr, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sydd dan anfantais.

7 Mae wedi bod yn anos symud rhai cyrsiau a rhaglenni i ddysgu o bell na chyrsiau neu raglenni eraill. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir am ddysgwyr yn y sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith sy'n dilyn prentisiaethau a chyrsiau technegol, gan fod angen iddynt ymarfer ag offer arbenigol ac mewn cyfleusterau arbenigol, yn ogystal â gwneud asesiadau dan oruchwyliaeth i arddangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol.

8 Pan fydd staff yn gweithio mewn timau i ddatblygu cyrsiau addysgu a dysgu o bell a chyfunol, gallant rannu cyfrifoldebau, methodoleg addysgu, syniadau ac adnoddau. Mae hyn yn arwain yn gyffredinol at gyrsiau ar-lein gyda mwy o gydlyniaeth a chydbwysedd da o weithgareddau cydamserol ac anghydamserol pwrpasol sy'n hyrwyddo dysgu.

9 Mae darparwyr wedi nodi manteision annisgwyl yn deillio o roi cyrsiau ar-lein. Er enghraifft, mae'r hyblygrwydd gwell yn denu ystod ehangach o ddysgwyr, gan eu bod yn gallu cael mynediad at ddysgu yn haws.

10 Yn y sectorau addysg bellach a dysgu oedolion yn y gymuned, mae darparwyr wedi addasu eu cynnig cwricwlwm yn gyflym ac yn briodol i ddiwallu anghenion dysgwyr sydd wedi colli cyflogaeth ac angen ailsgilio i gael mynediad at y farchnad swyddi.

11 Er gwaethaf eu hymdrechion i ddatblygu dulliau dysgu ac asesu o bell a chyfunol, mae darparwyr yn ystyried bod gormod o achosion pan na fu sefydliadau dyfarnu yn ddigon hyblyg o ran addasu eu gofynion. Mae hyn wedi golygu bod gormod o ddysgwyr yn aros i gwblhau eu cymwysterau a derbyn eu dyfarniadau yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi digalonni dysgwyr, gan olygu nad ydynt wedi gallu gwneud cynnydd yn y swyddi maen nhw ynddynt, neu'n methu gwneud cais am swyddi yn gysylltiedig â'u cymwysterau.

## Argymhellion

**Dylai colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned:**

A1 Sicrhau ansawdd darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol i sicrhau bod yr holl gyrsiau neu raglenni yn bodloni safon ansawdd ofynnol er mwyn lleihau'r amrywioldeb mewn darpariaeth

A2 Sicrhau bod arweinwyr ac athrawon yn gallu elwa ar ddysgu proffesiynol sy'n cefnogi datblygiad o ran sut i gynllunio addysgu a dysgu effeithiol o bell a chyfunol, yn ogystal â datblygu medrau addysgegol ac asesu athrawon ymhellach.

A3 Rhannu arfer sy'n dod i'r amlwg ac arfer arloesol o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn, ac ar draws, sectorau ôl-16 yng Nghymru, a thu hwnt

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A4 Barhau i gefnogi'r sector ag arweiniad i alluogi darparwyr i ddatblygu dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol o ansawdd da, yn enwedig o ran cefnogi'r dychwelyd i addysgu a hyfforddiant uniongyrchol, ac asesu medrau galwedigaethol a thechnegol ymarferol

A5 Comisiynu dysgu proffesiynol ar gyfer y sector ôl-16, sy'n rhad ac am ddim i ddarparwyr ac yn eu helpu i ddatblygu arbenigedd penodol mewn dylunio, addysgu, hyfforddiant a dysgu o ran dysgu cyfunol a dysgu o bell ar gyfer eu sector i leihau amrywioldeb yn ansawdd y ddarpariaeth

A6 Galluogi partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a dysgwyr i gael mynediad at blatfform digidol cenedlaethol canolog i ddarparu dysgu o bell a dysgu cyfunol yn haws

A7 Annog a chefnogi darparwyr i rannu arfer sy'n dod i'r amlwg mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn, ac ar draws, sectorau ôl-16 yng Nghymru

# 1 Polisi a chynllunio ar gyfer dysgu ar-lein

12 Achosodd dyfodiad y pandemig ym mis Mawrth 2020 a'r cyfnod clo dilynol i warchod iechyd pobl newid amlwg mewn addysgu a dysgu yn y sectorau ôl-16. Yr hyn sydd bwysicaf i lawer o ddysgwyr y gwnaethom siarad â nhw yw eu bod yn parhau â'u cyrsiau neu'u rhaglenni. Trwy wneud hynny, gallant nid yn unig gwblhau ac ennill cymwysterau a gwella eu cyfleoedd cyflogaeth, ond cael ffocws hefyd sy'n darparu sefydlogrwydd a diben mewn cyfnod ansicr.

13 Yn y cam 'achub', canolbwyntiodd darparwyr i ddechrau ar ddiogelu dysgwyr ar-lein ac ar gefnogi dysgwyr i barhau i ymgysylltu â dysgu. Dangosodd y gweithgaredd hwn raniad digidol nad oedd gan nifer sylweddol o ddysgwyr fynediad at yr offer angenrheidiol y gallent gysylltu â'u hathrawon a pharhau i ddysgu o bell trwyddo. Mewn llawer o achosion, nododd athrawon hefyd fod angen cymorth emosiynol a strategaethau i ddysgwyr allu cynnal eu lles a'u hiechyd meddwl.

14 Oherwydd y sefyllfa, treuliwyd llawer o amser uwch arweinwyr ac athrawon yn y cam achub yn ymateb i anghenion dybryd dysgwyr, er enghraifft sicrhau bod gan ddysgwyr yr offer priodol i allu dysgu, a'u cyfeirio at sefydliadau a allai ddarparu cymorth cymdeithasol, ariannol a chymorth â lles. Mae adroddiad Estyn ar iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr (Estyn, 2021) yn trafod y materion olaf hyn.

15 Ym mis Mawrth 2020, ychydig o ddarparwyr yn unig oedd wedi ymgymryd â chynllunio blaenorol i gynnwys dysgu o bell neu ddysgu cyfunol fel dewis rheolaidd yn eu cynnig cwricwlwm neu raglen dysgu yn y gwaith yn ystod 2019-2020. Rhoddodd hyn ychydig o ddarparwyr mewn sefyllfa well i ymateb yn gyflymach ac yn fwy cydlynus i'r sefyllfa sy'n datblygu. Yn y rhan fwyaf o achosion yn ystod y cam 'achub', canolbwyntiodd darparwyr ar gynllunio gweithredol a'r heriau o ran datblygu presenoldeb ar-lein o ddydd i ddydd. Dechreuodd llawer o golegau addysg bellach gyflwyno dysgu ar-lein erbyn diwedd mis Ebrill 2020. Fe wnaethant allu gwneud hyn yn bennaf am fod ganddynt adrannau TG canolog, a mynediad at adnoddau ychwanegol trwy Hwb, sef porthol dysgu proffesiynol, rhwydweithio, cydweithio a rhannu adnoddau Llywodraeth Cymru.

16 Mewn achosion lle roedd gan ddarparwyr dysgu yn y gwaith system TG ganolog, roedden nhw hwythau yn gallu darparu dysgu o bell a dysgu cyfunol mewn cyfnod cymharol fyr. Pan oedd darparwyr dysgu yn y gwaith wedi datblygu prosesau ar-lein ar gyfer portffolios electronig, helpodd hyn y dysgwyr i gyflwyno gwaith i'w asesu, er enghraifft asesiadau medrau hanfodol mewn llythrennedd a rhifedd. Mewn llawer o achosion, canolbwyntiodd darparwyr i ddechrau ar ddatblygu elfennau medrau damcaniaethol a hanfodol y rhaglen dysgu yn y gwaith ar-lein. Canfu darparwyr fod mynd i'r afael â hyfforddiant ac asesu elfennau ymarferol yn y gweithle neu'r hyfforddiant yn anos yn ystod y cyfnod clo pan na allai dysgwyr fynd i'w gweithleoedd.

**Cameo: Cyflwyno dysgu yn y gwaith o bell a thrwy ddysgu cyfunol o fewn Educ8 Group**

Roedd Educ8 Group, sy'n ymgorffori ISA Training, eisoes wedi dechrau ystyried datblygu cynnwys addysgu a dysgu o bell a chyfunol cyn y pandemig. O ganlyniad, yn 2018, fe wnaethant benodi rheolwr cwricwlwm digidol i oruchwylio datblygu rhaglenni dysgu cyfunol, ac roedd hyfforddwyr / anogwyr eisoes wedi dechrau rhaglen hyfforddi i ddatblygu eu medrau digidol a'u defnydd o Amgylchedd Dysgu Rithwir ac E-bortffolio. Galluogodd hyn y cwmni hyfforddi, staff a phrentisiaid i symud at ffyrdd newydd o ddysgu a gweithio yn gyflym pan ddechreuodd y pandemig. Ymatebodd Educ8 Group i anghenion diwydiant unigol trwy ychwanegu cynnwys, offer digidol a dulliau rhyngweithiol newydd at eu platfformau sefydledig. Datblygodd prentisiaid eu gwybodaeth a medrau galwedigaethol trwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau, fel fideos, dosbarthiadau meistr wedi eu recordio, gweminarau a sesiynau un i un ar-lein. Roedd y cwmni eisoes yn cynnig pecyn dysgu yn gyfan gwbl ar-lein ac o bell, ac addasodd y pecyn i fod yn becyn dysgu cyfunol wrth i leoliadau ddechrau ailagor i ymweliadau ar y safle ym mis Medi 2020.

Rhoddodd y cwmni fynediad i gyflogwyr at blatfform Moodle yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir, er mwyn iddynt allu cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddysgu damcaniaethol prentisiaid. Dywedodd y cyflogwyr fod hyn yn gweithio'n arbennig o dda yn y sector gwallt a harddwch, lle manteisiodd prentisiaid ar y cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth ddamcaniaethol i lefel uwch tra'n aros am y cyfle i gwblhau eu hasesiad terfynol. Trwy ddefnyddio platfform Moodle yr Amgylchedd Dysgu Rhithwir eu hunain, gallai'r cyflogwyr weld beth roedd y prentisiaid yn ei ddysgu. I helpu prentisiaid trin gwallt ar ffyrlo, pan oedd rheoliadau'r llywodraeth yn caniatáu, llogodd Educ8 Group ofod mewn dwy salon i helpu prentisiaid i ailafael yn eu medrau ymarferol mewn amgylchedd diogel.

Dywedodd y darparwr fod prentisiaid wedi ymgysylltu'n dda â dysgu o bell a dysgu cyfunol. Mae'r gostyngiad mewn amser teithio ar gyfer hyfforddwyr / anogwyr wedi eu galluogi i gynnal mwy o sesiynau ar-lein a gweithio gyda mwy o brentisiaid yn amlach. Mae hyn wedi arwain at sesiynau byrrach, mwy mynych, a ffocysedig sy'n galluogi prentisiaid i wneud cynnydd cyson. Mae'r darparwr yn barnu bod prentisiaid yn datblygu medrau dysgu annibynnol a hunanwerthuso gwell. Mae'r darparwr yn cefnogi'r prentisiaid i archwilio lefelau astudio uwch a mwy heriol, y maent yn eu trafod â'u hyfforddwr / anogwr. Mae prentisiaid sy'n astudio trin gwallt hefyd yn cymryd rhan mewn sesiynau addysgu cyfoedion, lle maent yn dangos gwahanol fedrau a thechnegau, er enghraifft mewn lliwio gwallt.

Yn gyfochrog â chyfleoedd dysgu ar-lein cynyddol ar gyfer prentisiaid, mae'r cwmni wedi datblygu pecyn dysgu proffesiynol ar-lein ar gyfer staff.

Mae Educ8 Group yn adolygu'r modelau cyflwyno bob tri mis i ddiweddaru cynnwys. I sicrhau ei fod yn gallu parhau i weithredu'r rhaglen mae'n ei chynnig ar-lein, mae'r cwmni wedi buddsoddi mewn penodi prentis digidol i gefnogi datblygiad parhaus a datblygwr digidol i ddatblygu dulliau addysgu digidol datblygedig.

Yn y ffyrdd hyn, mae Educ8 Group yn gweithio tuag at fodloni'r heriau o ran cyflwyno ac asesu dysgu galwedigaethol mewn iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant a thrin gwallt, pan wnaeth achosion o COVID-19 rwystro prentisiaid rhag parhau â'u dysgu yn eu lleoliadau gwaith.

17 Er bod gan yr holl bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned gysylltiadau ag awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach, canolbwyntiodd y partneriaid hyn eu sylw yn anochel ar yr heriau i ddysgwyr amser llawn a dysgwyr statudol (cyn-16). Gwelodd llawer o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned ei bod yn anos symud i addysg ar-lein mor gyflym â sectorau ôl-16 eraill o ganlyniad i'r diffyg mynediad at system TG genedlaethol ganolog ac a rennir i gysylltu â dysgwyr a chael mynediad at offer ac adnoddau fel y rhai a ddarperir i ysgolion ar Hwb. Yn aml, roedd darparwyr yn gweld bod diffyg offer neu lwfans data dysgwyr a'u medrau technolegol hefyd yn eu rhwystro rhag ymgysylltu â dysgu ar-lein. Serch hynny, llwyddodd staff mewn partneriaethau i ddod o hyd i ystod o ffyrdd, yn cynnwys cyflwyno deunyddiau ar bapur, i gynnal ymgysylltiad dysgwyr a sicrhau dysgu parhaus. Datblygwyd cynllun gan bartneriaeth dysgu oedolion Caerdydd a'r Fro lle gallai cwmnïau a phobl ag offer dros ben gyfrannu gliniaduron a chyfrifiaduron llechen electronig i'r bartneriaeth i'w hadnewyddu. Wedyn, dosbarthodd y bartneriaeth yr offer i'r dysgwyr hynny oedd heb offer i'w helpu i barhau i ymgysylltu â dysgu heb fod angen dychwelyd yr offer ar ryw adeg yn y dyfodol.

18 Nodweddwyd y cam achub gan amrywioldeb mawr yn narpariaeth ac ansawdd y profiadau dysgu am nad oedd gan ddarparwyr yr amser i gynllunio'n fanwl, ond roedd rhaid iddynt ymateb mor gyflym ag y bo modd i anghenion eu dysgwyr a defnyddio pa fedrau technolegol bynnag oedd gan eu staff a'r offer digidol a oedd ar gael iddynt ymgymryd â dysgu ar-lein. Yn ystod haf 2020, roedd y rhan fwyaf o ddarparwyr ar draws y tri sector yn gallu symud yn llwyddiannus o'r camau 'achub' ac 'adfer' i'r cam 'adnewyddu'. Adolygodd darparwyr eu harferion dysgu o bell a dysgu cyfunol, a dechrau cynllunio sut i gyflwyno gweithgarwch dysgu o bell a dysgu cyfunol yn fwy effeithiol yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, sef y cam 'adnewyddu'. Sylweddolodd darparwyr fod galluogrwydd a hyder digidol staff adeg y cyfnod clo yn amrywiol. Ar ôl y cyfnod achub, manteisiodd darparwyr ar y cyfle i ganolbwyntio dysgu proffesiynol ar y cam nesaf, sef sut i addasu cyrsiau a darparu pecyn dysgu o bell neu ddysgu cyfunol mwy cydlynus. (Llywodraeth Cymru, 2020i).

19 Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020, canolbwyntiodd polisi a chynllunio ar faterion gweithredol yn bennaf, fel aildrefnu amserlenni a'r amgylchedd dysgu corfforol i ymdopi â dychwelyd dysgwyr i ddysgu wyneb yn wyneb sy'n ddiogel a saff o ran COVID-19. O ddiwedd haf 2020 ymlaen, dechreuodd uwch arweinwyr ddatblygu polisi hefyd i fynd i'r afael â chymorth ychwanegol ar gyfer lles athrawon, i ddatblygu dealltwriaeth o safonau digidol a dulliau addysgu, a'u medrau technolegol ymhellach i gyflwyno addysgu o ansawdd da o bell, a thrwy ddysgu cyfunol. Yn rhan o'r gwaith hwn, dechreuodd llawer o ddarparwyr y gwnaethom gysylltu â nhw ddatblygu polisïau defnyddiol am gyflwyno dysgu ar-lein i sicrhau safonau digidol priodol, mynediad a chyfle cyfartal ar gyfer dysgwyr ac i osod paramedrau ar gyfer oriau gwaith a beichiau gwaith athrawon. Gweithiodd darparwyr gyda staff a dysgwyr i ddatblygu polisi ar ffurf codau ymarfer am ddisgwyliadau dysgwyr a hawl ac ymddygiadau dysgwyr yn ystod sesiynau ar-lein.

20 At ei gilydd, mae'r gwaith i ddatblygu polisïau ar gyfer dysgu o bell a dysgu ar-lein wedi helpu ysgogi dealltwriaeth ar y cyd o fewn darparwyr unigol, a lleihau i ryw raddau'r amrywiad eang a welwyd mewn arferion ar ddechrau'r pandemig. Mae darparwyr ar draws y tri sector yn parhau i adolygu polisïau am ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r amgylchiadau mwyaf cyfredol. Maent yn eu mireinio wrth iddynt ddatblygu mwy o wybodaeth a dealltwriaeth am beth sy'n gweithio orau i ddysgwyr a staff yn eu cyd-destunau eu hunain.

21 Gan fod cyfraddau heintiau COVID-19 yn gostwng, ac yn unol â chynllun arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer dychwelyd yn raddol, dychwelodd dysgwyr galwedigaethol y mae angen iddynt fynychu dysgu ar safle er mwyn cwblhau dysgu ymarferol ac asesiadau, yn cynnwys prentisiaid a'r rhai sy'n astudio ar gyfer cymwysterau mewn cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol, i ddysgu ar y safle, gan gadw pellter cymdeithasol, o 22 Chwefror 2021.

## 2 Addysgu a dysgu gan ddefnyddio dulliau ar-lein

22 Cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, nid oedd gan y rhan fwyaf o athrawon ôl-16 ryw lawer o brofiad o addysgu cyrsiau neu raglenni ar-lein. Yn ystod wythnosau cychwynnol y cam 'achub', arbrofodd athrawon â gwahanol ffyrdd o gyflwyno eu cyrsiau neu raglenni ar-lein. Mewn llawer o achosion, er enghraifft mewn sectorau addysg bellach a dysgu yn y gwaith, bu'n rhaid i athrawon addasu eu haddysgu yn unol â'r platfform digidol a fabwysiadwyd gan eu sefydliad eu hunain, fel Microsoft Teams neu Google Classroom. Yn y sector dysgu oedolion yn y gymuned, lle roedd platfformau digidol canolog cyfyngedig yn unig, yn aml, roedd yn rhaid i athrawon ddod o hyd i feddalwedd a fyddai'n darparu ar gyfer y strategaethau addysg roeddent eisiau eu defnyddio ar-lein. Roedd rhaid iddynt ystyried hefyd p'un a oedd eu dewis o feddalwedd yn hygyrch i'w dysgwyr, y mae llawer ohonynt yn dod o gefndiroedd difreintiedig ac anodd eu cyrraedd, heb fynediad at eu cyfrifiadur, eu gliniadur neu gyfrifiadur llechen electronig eu hunain, neu sydd â mynediad cyfyngedig at ddata ar ffonau symudol.

23 I oresgyn rhai o'r problemau cychwynnol hyn, darparodd athrawon waith i ddysgwyr y gallent ei gwblhau ar eu pennau eu hunain (anghydamserol) cyn ymuno â sesiynau ar-lein. Galluogodd hyn athrawon i weithio'n rhyngweithiol â dysgwyr yn ystod y sesiynau ar-lein. Yn y cyfnod cynnar hwn, mewn llawer o achosion ar draws pob sector, cael mynediad haws at dechnoleg gwybodaeth oedd yn gyrru'r arfer addysgu a dysgu, yn hytrach na'r addysgu a'r dysgu yn gyrru'r dewis o becyn TG a oedd yn ategu'r fethodoleg addysgu orau. Yn aml, roedd hyn yn arwain at ddarpariaeth ddigyswllt, ac nid oedd yn darparu ar gyfer addysgu a phrofiadau dysgu difyr ar y cyfan.

24 Yn ystod y cam adfer, daeth athrawon yn fwy cyfarwydd â defnyddio gwahanol fathau o becynnau TG, gan fagu hyder yn gwneud hyn. Trwy eu profiad, roeddent yn gallu gwerthuso'r pecynnau TG roeddent yn eu defnyddio yn well, yn ogystal â chynnydd dysgwyr. Dechreuodd athrawon adolygu a mireinio cynlluniau gwaith, a'u haddasu i ffurf fwy ystyriol o ddysgu cyfunol ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi 2020, sef y cam 'adnewyddu'.

25 At ei gilydd, yr enghreifftiau mwyaf effeithiol o gyrsiau a addaswyd ar gyfer dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol y mae arolygwyr wedi eu gweld hyd yma yn gyffredinol yw cyrsiau ar lefel 3 neu'n uwch mewn meysydd pwnc sy'n gweddu i lefelau BTEC neu Safon Uwch yn benodol. Dywedodd athrawon eu bod yn ei chael yn haws addasu cyrsiau nad oedd ganddynt lefel uchel o elfennau ymarferol iddynt. Roedd hyn oherwydd y gallai dysgwyr astudio'n annibynnol, fel darllen a gwaith ymchwil, cyn ymuno â sesiynau ar-lein lle gallent drafod canlyniadau eu gwaith, neu gallai'r athro wneud cyflwyniad neu atgyfnerthu dysgu ar bwnc. Fodd bynnag, roedd yn anos cyflwyno llawer o gyrsiau dysgu yn y gwaith trwy ddulliau dysgu o bell neu ddysgu cyfunol.

26 Gallai darparwyr dysgu yn y gwaith gyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru ar-lein, yn enwedig os oeddent yn defnyddio'r rhaglenni ar-lein a baratowyd gan Y Brifysgol Agored ar y cyd â cholegau yng Nghymru. Fodd bynnag, cafodd yr amser

oedd ar gael i brentisiaid ymarfer neu gael hyfforddiant uniongyrchol i ddatblygu'r medrau sydd eu hangen ar gyfer eu rhaglenni a'u cymwysterau galwedigaethol ei gwtogi'n ddifrifol gan y diffyg mynediad at weithleoedd a chyfleusterau hyfforddiant arbenigol yn ystod cyfnodau clo neu gyfyngiadau eraill.

27 Mae ychydig o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned wedi datblygu cyrsiau ymarferol sy'n cael eu haddysgu trwy ddulliau dysgu cyfunol. Mae'r cyrsiau hyn, fel coginio, celf, ioga ac ieithoedd, wedi'u hanelu at ddysgwyr sy'n oedolion sydd eisiau datblygu eu medrau diddordeb personol yn y meysydd hyn, ac yn gyrsiau y mae angen offer arbenigol ychwanegol cyfyngedig yn unig ar eu cyfer.

28 Er y bu gwelliannau yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu o ran addysgeg ac addasu cyrsiau a rhaglenni yn unol â dulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol, mae heriau sylweddol o hyd i ddarparwyr dysgu yn y gwaith ddarparu elfennau ymarferol cymwysterau trwy'r ffyrdd hyn.

29 O ganlyniad, mae darpariaeth ac ansawdd addysgu a dysgu ar-lein ar draws y sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn parhau i fod yn amrywiol, ar y cyfan.

30 Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae athrawon yn gweithio fel timau i gynllunio a chyflwyno cyrsiau neu raglenni dysgu cyfunol sy'n gydlynus ac yn galluogi dysgwyr i wneud cynnydd da yn eu dysgu. Maent yn sicrhau:

- Bod gan bob un o'r athrawon ar y tîm drosolwg a dealltwriaeth glir o'r gwaith.
- Bod pob athro yn glir ynglŷn â rôl y sesiynau y byddant yn eu cyflwyno ar y cwrs mewn perthynas â sesiynau eraill wedi eu haddysgu gan athrawon eraill.
- Eu bod yn creu cynlluniau wrth gefn ar y cychwyn, er enghraifft sut i addasu'r cwrs ar gyfer dysgu o bell os bydd cyfnod clo, neu pwy fydd yn cyflenwi sesiynau os na all aelod o'r tîm wneud hynny.
- Eu bod yn cynllunio ar gyfer y tymor hwy er mwyn iddynt allu sicrhau bod dysgwyr yn cael profiad o ystod eang o weithgareddau addysgu, cyfleoedd asesu anffurfiol a ffurfiol a chymorth personol, fel y byddent pe baent yn mynychu dosbarth mewn coleg, lleoliad gwaith neu leoliad cymunedol.
- Eu bod yn sicrhau bod cydbwysedd addas o ran amser rhwng dysgwyr yn gweithio'n anghydamserol ac yn annibynnol, ac yn gydamserol, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb ar y safle, fel rhan o grŵp cyfan neu grŵp llai o ddysgwyr.
- Eu bod yn cynllunio tasgau priodol ar gyfer gwaith anghydamserol, fel paratoi ar gyfer sesiwn yn y dyfodol neu atgyfnerthu gwaith, fel llunio aseiniad i'w asesu i ddangos eu cynnydd mewn dysgu.
- Eu bod yn gosod aseiniadau y gall dysgwyr eu cyflwyno mewn amrywiaeth o ffyrdd gan ddefnyddio technoleg i ddangos ystod y medrau y maent yn eu datblygu yn eu dysgu.
- Eu bod yn sicrhau bod dysgwyr yn cael mynediad at adnoddau ar bapur ac/neu adnoddau digidol sy'n eu cynorthwyo yn y tasgau hynny.
- Eu bod yn defnyddio sesiynau ar-lein a/neu sesiynau wyneb yn wyneb i gyflwyno cysyniadau a gwybodaeth newydd, rhoi arddangosiadau ymarferol ac adolygu cyflwyniadau dysgwyr.
- Eu bod yn sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfle i ryngweithio â'i gilydd mewn trafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb fel nad yw dysgwyr yn teimlo'n ynysig, ond yn magu hyder i fynegi eu syniadau i bobl eraill.

- Eu bod yn rhoi ystyriaeth dda i lefelau canolbwyntio dysgwyr ac amgylchiadau eu cartref wrth weithio'n gydamserol, a'u bod yn addasu amseriad sesiynau wyneb yn wyneb yn unol â hynny.

**Cameo: Addasu cwrs dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a'r Fro ar gyfer cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol**

Enghraifft dda o'r dull hwn yw cwrs lefel Mynediad 3 Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) a gyflwynir gan Goleg Caerdydd a'r Fro ar y cyd â phartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned Caerdydd a'r Fro. Daeth y tîm sy'n cyflwyno'r cwrs at ei gilydd i ailgynllunio'r cynlluniau gwaith a'r cynlluniau addysgu i weithio'n effeithiol fel cwrs dysgu cyfunol. Yn eu cynllunio, ystyriont sut gallent newid i weithio o bell yn hawdd pe baen nhw mewn cyfnod clo. Rhannodd yr athrawon y grŵp o ddysgwyr yn 'swigod', sef grwpiau llai heb fod yn fwy na phump o bobl, er mwyn bod yn ddiogel o ran COVID-19 pan fydd dysgwyr ar y safle. I gyflwyno'r cwrs fel dysgu cyfunol, fe wnaethant adolygu'r cwrs a gwneud addasiadau i benderfynu pryd i addysgu medrau iaith ar wahân neu fel medrau cymysg. Trefnodd y tîm i gyflwyno deunydd newydd i ddysgwyr ar-lein fel grŵp cyfan. Mae pob un o'r athrawon yn cymryd cyfrifoldeb am gyflwyno gwahanol elfennau o'r cwrs. Caiff dysgwyr gyfle ychwanegol i weithio yn eu 'swigod' gydag athro ar y safle neu ar-lein, yn dibynnu ar gyfyngiadau, i ymarfer gwrando, darllen a siarad. Mae athrawon yn rhoi ystyriaeth dda i amgylchiadau cymdeithasol, ariannol a diwylliannol dysgwyr yn yr hyn maent yn gofyn i ddysgwyr ei wneud ar-lein. Er enghraifft, gallai dysgwyr fod yn byw gyda'u teuluoedd mewn llety sydd â gofod personol cyfyngedig, ac felly maent yn dymuno ymuno â'r dosbarth gyda fideos wedi eu diffodd.

Mewn un dosbarth penodol, adeiladodd yr athro ar waith a gyflwynwyd yn y sesiwn flaenorol gan gydweithiwr arall, gan roi cyfle i ddysgwyr ymarfer defnyddio geirfa a chystrawen newydd trwy ddarllen dogfen wedi'i rhannu ar y sgrin, a rhannu eu syniadau eu hunain yn Saesneg am bwnc y testun. Gan nad iaith gyntaf y dysgwyr yw'r iaith a ddefnyddir yn y sesiwn, gofalodd yr athro ei fod yn gwneud defnydd llawn o'r cyfleusterau ar y platfform TG a ddewiswyd i gynnal sylw'r dysgwyr. Er enghraifft, cyflwynodd yr athro'r testun trwy ei ddarllen ar goedd fel bod y dysgwyr yn gallu clywed yr atalnodi a'r oslef gywir a thrwy ofyn cwestiynau agored. Defnyddiodd yr athro farcwyr lliw i helpu dysgwyr i ddilyn trywydd y testun. Gofynnodd yr athro gwestiynau i ddarganfod pa mor dda y deallodd y dysgwyr y testun, a dod i wybod eu barn, gan felly eu helpu i alw i gof ac ymestyn eu defnydd o iaith.

31 Mewn enghreifftiau llai effeithiol, mae athrawon yn parhau i fod yn llai hyderus ynglŷn â defnyddio technoleg ac mewn dulliau o addysgu ar-lein. Yn yr achosion hyn, nid yw athrawon yn cymryd trosolwg o'r cwrs neu'r rhaglen gyfan nac yn addasu trefn gweithgareddau a deunyddiau i fodloni'r modd cyflwyno yn well. Yn hytrach, maent yn canolbwyntio ar drefnu eu haddysgu a'u dysgu o amgylch cymwysiadau'r cynnyrch masnachol, yn hytrach na chanolbwyntio ar y dysgwr wrth baratoi ac ailgynllunio'r dysgu i'w gyflwyno mewn ffordd sy'n gofyn am ymgysylltu gweithredol gan ddysgwyr. Dywed dysgwyr eu bod yn diflasu ac yn colli ffocws pan fydd sesiynau cydamserol dim ond yn cynnwys cyflwyno deunyddiau nad ydynt yn gofyn

iddynt ymgysylltu a thrafod y syniadau a'r cynnwys. Yn ychwanegol, pan fydd athrawon yn cyflwyno cyrsiau neu raglenni o bell neu drwy ddysgu cyfunol mewn ffordd fwy digyswllt, mae dysgwyr yn ei chael yn anodd gwerthuso eu cynnydd eu hunain mewn dysgu neu i fod yn frwdfrydig ynglŷn â mynychu sesiynau ar-lein.

32 Mewn lleiafrif o achosion pan fydd amgylchiadau'n caniatáu dysgu wyneb yn wyneb, mae darparwyr yn defnyddio dulliau 'dysgu hybrid' i gyflwyno cyrsiau. Weithiau, mae darparwyr yn defnyddio'r term 'dysgu hybrid' yn gyfnewidiol â dysgu cyfunol. Fodd bynnag, mae llawer o ddarparwyr hefyd yn defnyddio'r term i gyfeirio'n benodol at addysgu dysgwyr wyneb yn wyneb ar y safle ac wyneb yn wyneb ar-lein ar yr un pryd (gan gynnig ffrydio byw ar gyfer cyfranogwyr o bell). Mae gan lawer o athrawon a dysgwyr farn gymysg am effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y dull hwn. Mewn llawer o achosion, mae dysgu hybrid wedi datblygu'n rhan o gyflwyno dysgu cyfunol o ganlyniad i nifer y dysgwyr unigol na allant fynychu sesiynau wyneb yn wyneb ar y safle am gyfnodau cyfyngedig pan mae angen iddynt hunanynysu, ond nad ydynt eisiau colli eu haddysg. Pan mae darparwyr wedi defnyddio'r dull cyflwyno hwn heb ystyriaeth ofalus, mae llawer o athrawon yn ei gweld yn straen addysgu yn y modd hwn am fod rhaid iddynt rannu eu sylw rhwng y rhai yn yr ystafell ddosbarth a'r rhai sy'n gweithio o gartref ar-lein. Gwelant mai'r hyn sy'n tarfu arnynt fwyaf yw bod y dysgwyr ar-lein yn aml yn cael problemau cysylltedd. Effaith hyn yw ei fod yn arafu cyflymdra'r sesiwn, ac mae'n aml yn golygu nad yw'r athro a'r dysgwyr yn gwneud cymaint o'r gwaith â'r hyn a fwriadwyd. Hefyd, mae'n golygu bod dysgwyr yn y grŵp wyneb yn wyneb yn teimlo'n rhwystredig, gan na all yr athro roi cymaint o sylw iddynt, yn sgil ceisio datrys problemau technegol gyda dysgwyr ar-lein, neu alw i gof rannau o'r wers y mae'r dysgwr o bell wedi eu colli o ganlyniad i broblemau cysylltu.

33 Pan fydd uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi cymeradwyo dysgu hybrid fel strategaeth a ystyriwyd, maent wedi dewis y cyrsiau mwyaf addas ar gyfer y ffurf hon o gyflwyno, ac maent wedi darparu adnoddau a hyfforddiant priodol. Fel arfer, cyrsiau o'r fath yw cymwysterau sydd gyfwerth â lefel UG a Safon Uwch neu BTEC lefel 3, gan fod y dysgwyr, ar y cyfan, eisoes yn meddu ar y medrau canolbwyntio ac astudio i addasu yn unol â'r model hwn. Yn yr achosion hyn, gallai cydweithwyr addysgu fesul timau fel bod un person ar gael bob amser i gynorthwyo'r dysgwyr yn yr ystafell ddosbarth. Fel arall, mae cynorthwyydd cymorth â medrau TG da yn gweithio ochr yn ochr â'r athro i helpu datrys problemau technegol heb amharu ar amser yr athro.

**Cameo: Cyflwyno dysgu hybrid pwrpasol yn St David's College**

Mae a wnelo'r cameo hwn â threfniadau ar gyfer dysgwyr UG a Safon Uwch sy'n astudio ystod o bynciau lle mae'r rhan fwyaf o wersi yn addas i'w cyflwyno o fewn ystafell ddosbarth neu amgylchedd cyffredin. Mae cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr mewn TGAU yn gymharol uchel, gan fodloni gofynion mynediad y coleg, sef 6 gradd A*-C mewn TGAU ar gyfer astudio cyrsiau Safon Uwch, neu 5 gradd A*-C mewn TGAU ar gyfer cyrsiau galwedigaethol lefel 3.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2020, adolygodd uwch arweinwyr yn St David's College effaith barhaus COVID-19 ar addysgu a dysgu. Fe wnaeth grŵp bach o uwch arweinwyr â chyfrifoldebau addysgu ac athrawon dreialu a mireinio ffyrdd o ddefnyddio technoleg i ddarparu dysgu effeithiol o bell, a helpu cyflawni dysgu wyneb yn wyneb trwy gadw pellter cymdeithasol trwy ddysgu hybrid. Nod y coleg yn y tymor hwy yw defnyddio technoleg fideo i gefnogi dysgu proffesiynol staff. Trefnodd uwch arweinwyr â staff gytundeb i osod dau gamera a microffon o bell ym mhob un o'r 63 ystafell ddosbarth yn y coleg. Yn ychwanegol, roedd delweddwr dogfennau ym mhob ystafell ddosbarth i gofnodi ffotograffau o ddogfennau neu ddarparu fideo byw o lawysgrifen a darluniau.

Er mwyn galluogi i ddysgu wyneb yn wyneb barhau yn ddiogel pan ganiatawyd gwneud hynny yn ystod y pandemig, rhannodd y coleg pob grŵp addysgu yn ddau. Yn ystod cyfnodau lle caniatawyd dysgwyr ar y safle, mynychodd un hanner o bob grŵp addysgu wersi yn gorfforol yn ystod y deuddydd a hanner cyntaf bob wythnos, tra ymunodd hanner arall y grŵp â'r gwersi o bell o gartref gan ddefnyddio cyswllt byw â'r ystafell ddosbarth. Fe wnaeth athrawon wrthdroi'r trefniadau ar gyfer ail hanner yr wythnos. Yn ystod cyfnodau pan oedd pawb heblaw dysgwyr bregus wedi'u gwahardd rhag mynychu safle'r coleg, parhaodd athrawon i gyflwyno gwersi o ystafelloedd dosbarth gwag neu o'u cartrefi. Yn ogystal â'r trefniadau hyn, mae pob dysgwr yn ymgymryd â 50 munud o ddysgu annibynnol anghydamserol yr wythnos ar gyfer pob un o'i bynciau. Ar gyfer y rhain, mae athrawon yn darparu adnoddau a thasgau penodol ar-lein i ddysgwyr; er enghraifft, gallai athrawon ddarparu fideo ohonyn nhw eu hunain yn esbonio cysyniad newydd, a gosod cwestiynau cysylltiedig i ddysgwyr eu hateb i atgyfnerthu'r dysgu.

Roedd natur y dysgwyr, yn sgil cyflawniad academaidd blaenorol cymharol uchel mewn TGAU a medrau astudio cryf, ynghyd â'r ffordd yr oedd staff y coleg eisoes wedi dechrau datblygu eu medrau mewn addysgu a dysgu o bell, yn golygu bod uwch arweinwyr a staff y coleg yn teimlo'n gyfforddus â chyflwyno dysgu hybrid i fodloni'r amgylchiadau heriol.

34 Wrth symud i ddysgu o bell neu ddysgu cyfunol, nododd llawer o'r athrawon y gwnaethom gysylltu â nhw fod ychydig o ddysgwyr, a oedd yn ei chael yn anodd mynychu sesiynau ar y safle yn rheolaidd yn y gorffennol, yn mynychu'n fwy rheolaidd ar-lein. Mewn llawer o achosion, mae hyn oherwydd nad oes rhaid iddynt ymrwymo i amseroedd teithio, gallant ddefnyddio'r amser ychwanegol i astudio ac maent yn cael mwy o amser gyda'u teulu ac amser cymdeithasol. Fodd bynnag, mewn ychydig o achosion, nid yw dysgwyr iau wedi'i chael yn hawdd mynychu

sesiynau yn y cyfnod clo sy'n dechrau am naw o'r gloch yn y bore am amrywiaeth o resymau. O ganlyniad, mae dysgwyr wedi bod yn cyrraedd sesiynau'n hwyr neu nid ydynt yn mynd i'r sesiynau. I oresgyn hyn, mewn un coleg addysg bellach, mae uwch arweinwyr wedi rhoi caniatâd i athrawon fod yn fwy hyblyg yn ystod y cyfnod clo a thrafod amser sy'n dderbyniol i'r naill a'r llall ar gyfer dechrau sesiynau gyda dysgwyr, sy'n gweddu'n well i fywydau dysgwyr, a gyda'u bywydau eu hunain a'u cyfrifoldebau teuluol. Ar gyfer un grŵp o'r fath, cytunodd athrawon â dysgwyr y dylai'r sesiwn ddechrau am 13:00 a pharhau ag egwylion a seibiannau addas tan 17:00. Mae athrawon yn anfon nodyn atgoffa at ddysgwyr awr cyn dechrau'r sesiwn. Maent wedi gweld, trwy wneud hyn, bod dysgwyr yn mynychu'n amlach, yn cyrraedd yn fwy prydlon ac yn ymgysylltu'n llawnach â'r gwaith.

35 Mae'r pandemig wedi arwain at lai o oriau gwaith neu ddiswyddiadau i lawer o unigolion cyflogedig, yn enwedig mewn sectorau fel manwerthu, lletygarwch ac arlwyo. Erbyn hyn, mae twf yn nifer yr oedolion sy'n bwriadu newid cyfeiriad yn eu bywydau ac angen datblygu medrau newydd. O ganlyniad, mae darparwyr ôl-16 wedi dechrau cynnig cyrsiau newydd i ddiwallu'r anghenion hyn. Er enghraifft, mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales wedi datblygu cwrs i helpu pobl i ennill medrau i wneud cais am swydd gyda'r gwasanaeth sifil. Mewn ychydig o feysydd, mae hyn yn arwain at ddatblygu cyrsiau neu raglenni dysgu o bell a dysgu cyfunol mwy cydlynus ac o ansawdd gwell, gan fod athrawon yn cynllunio'r cyrsiau yn ofalus ar gyfer dulliau cyflwyno ar-lein o'r cychwyn.

**Cameo: Defnyddio cyfleoedd a roddir trwy ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn Groundworks**

Mae'r cameo hwn yn canolbwyntio ar ddyfarniad Agored lefel 1: Cyflwyniad i Iechyd a Gofal Cymdeithasol (oedolion a phlant a phobl ifanc), y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a gynigir gan Groundworks, sef elusen annibynnol, fel rhan o bartneriaeth dysgu oedolion Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r dyfarniad hwn yn newydd i ddarpariaeth y bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae'r cwrs yn cynnwys pedair uned. Mae dysgwyr yn mynd ymlaen i ddilyn cyrsiau ffurfiol a reoleiddir (er enghraifft Lefel 2 Diogelwch Bwyd mewn Arlwyo) wedi iddynt gwblhau'r cyrsiau yn llwyddiannus. Mae dysgwyr yn mynychu o ardal Wrecsam, ac yn dod o ystodau eang o gefndiroedd a phrofiadau.

Mae hyfforddwyr wedi cynllunio cwrs arloesol i'w gyflwyno ar-lein, lle maent yn cynnal sesiynau ar-lein am awr gyda dysgwyr, dwy neu dair sesiwn mewn diwrnod, ddwywaith yr wythnos. Mae dysgwyr yn mynychu sesiynau cydamserol ar-lein gyda hyfforddwr i gwblhau ymarferion unigol ac mewn grwpiau. Yn dilyn sesiynau cydamserol, mae dysgwyr yn gwneud gwaith annibynnol sydd wedi'i osod yn eu llyfrau gwaith ar bapur yn anghydamserol. Mae'r darparwr wedi trefnu cymorth un i un ar gyfer dysgwyr, yn ôl yr angen. Wedi i ddysgwyr gwblhau llyfrau gwaith a'u dychwelyd, os oes angen rhagor o dystiolaeth ategol ar hyfforddwyr, maent yn trefnu sesiynau holi ac ateb un i un.

Mae'r darparwr wedi datblygu cod ymddygiad ar gyfer dysgu ar-lein, y mae'r holl ddysgwyr yn ei dderbyn cyn dechrau'r cwrs. Mae hyfforddwyr yn trafod y cod ymddygiad gyda dysgwyr yn y sesiwn ragarweiniol ar-lein. Mae'r darparwr wedi datblygu polisi a gweithdrefnau dysgu o bell. Mae pob hyfforddwr yn gwybod beth

i’w wneud os bydd dysgwyr yn torri’r cod ymddygiad yn aml. Dywed hyfforddwyr fod y sesiynau byr sy’n para awr yn effeithiol o ran galluogi dysgwyr i ymgymryd â’r cwrs a rheoli ffactorau eraill yn eu bywydau, fel gofal plant a chyfrifoldebau eraill. Mae’r darparwr wedi gweld bod dysgwyr yn aros gyda’r darparwr ac yn mynychu sesiynau yn rheolaidd wedi iddyn oresgyn y rhwystr i ymuno â sesiynau ar-lein. Pan na all dysgwyr ymuno â’r sesiynau ar-lein, er enghraifft trwy broblemau yn sgil cysylltiad TG gwael, mae’r darparwr yn caniatáu amser ar gyfer sesiynau dal i fyny, fel bod dysgwyr yn teimlo’n hyderus eu bod yn gallu cyflawni, ac nad yw amgylchiadau y tu hwnt i’w rheolaeth yn eu rhoi dan anfantais. Mae dysgwyr wedi dweud wrth y darparwr fod yn well ganddynt ddysgu o bell a dysgu cyfunol, am nad oes ganddynt yr hyder i fynychu adeiladau anghyfarwydd, ac maent yn pryderu am ddal COVID-19, o bosibl.

Mae tiwtoriaid yn rhoi adborth i ddysgwyr trwy negeseuon e-bost ac mewn sesiynau unigol ar-lein. Mae hyfforddwyr yn monitro cynnydd dysgwyr trwy eu cyfraniadau at sesiynau ar-lein a’r gwaith y maent yn ei gyflwyno. Gan gadw amgylchiadau dysgwyr mewn cof, mae’r darparwr yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, llwyddodd yr holl ddysgwyr i ennill eu cymwysterau o fewn y raddfa amser ofynnol. O’r 14 atgyfeiriad i’r cwrs, llwyddodd 10 dysgwr i gwblhau eu cwrs, ac aeth naw ohonynt ymlaen i ddilyn cyrsiau dysgu lefel uwch a chymwysterau gyda darparwyr eraill. Mae’r swyddog datblygu dysgu oedolion yn y gymuned yn cysylltu â hyfforddwyr a dysgwyr yn rheolaidd trwy anfon negeseuon e-bost atynt, neu’u ffonio. Ar gyfer dosbarthiadau wyneb yn wyneb, mae’r swyddog datblygu yn ymweld ar ddechrau’r cwrs. Mae’r darparwr yn monitro cyfraddau presenoldeb a llwyddiant, ac yn trafod pryderon â swyddog datblygu’r bartneriaeth dysgu oedolion yn y gymuned. Mae hyn yn galluogi dysgwyr i elwa ar gymorth gan rwydwaith ehangach o arbenigwyr â phroblemau penodol, os oes angen. Mae hyfforddwyr yn cynnwys y staff atgyfeirio mewn gohebiaeth allweddol â dysgwyr. Mae’r cyfle i ddysgu ar-lein a’r rhwydwaith cymorth yn helpu dysgwyr i barhau i ennill eu cymwysterau yn ystod y cyfnod anodd a achoswyd gan y pandemig.

# 3 Darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol ar gyfer dysgwyr bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cynnwys y rhai â lefelau isel o lythrennedd ac iaith

36 Mae staff ar draws y sectorau ôl-16 wedi dangos ymrwymiad cryf iawn i sicrhau bod eu dysgwyr wedi gallu dal ati i ddysgu trwy gydol y pandemig. Her sylweddol i ddarparwyr ôl-16 fu darparu cyrsiau dysgu o bell a dysgu cyfunol addas ar gyfer dysgwyr bregus, y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, dysgwyr â lefelau llythrennedd isel a dysgwyr Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill sydd â lefelau isel o iaith a llythrennedd.

37 Yn y rhan fwyaf o achosion, dywedodd darparwyr eu bod wedi nodi dysgwyr bregus a'r rhai ag anghenion dysgu sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym. Mae athrawon wedi gweithio gydag adrannau cymorth o fewn eu sefydliadau, a gyda sefydliadau allanol, yn ôl yr angen, i ddod o hyd i offer a meddalwedd TG briodol er mwyn galluogi dysgwyr i barhau â'u dysgu o bell. Mae enghreifftiau'n cynnwys meddalwedd sy'n darllen deunyddiau ar goedd, meddalwedd adnabod llais i drawsgrifio gwaith dysgwyr, pecynnau sy'n chwyddo ysgrifennu ar gyfer y rhai â nam ar eu golwg i allu darllen testun iddyn nhw eu hunain, ac offer sy'n galluogi'r dysgwr i ddefnyddio'r bysellfwrdd fel y gall ymchwilio i'w waith ei hun a'i ddrafftio. Mae angen mwy o amser un i un ac adnoddau ar bapur ar lawer o ddysgwyr bregus a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol i'w helpu i wneud cynnydd. Mewn llawer o achosion, roedd athrawon yn gallu cael help gan adran gymorth y darparwr. Pan nad oedd hyn yn bosibl, roeddent yn darparu cymorth un i un ychwanegol eu hunain, trwy sesiynau wyneb yn wyneb ar y safle lle byddai amgylchiadau'n caniatáu, neu drwy sesiynau un i un ar-lein neu ar y ffôn.

38 Mae llawer o ddarparwyr wedi gweld mai dysgwyr â lefelau isel o iaith a llythrennedd Cymraeg neu Saesneg fu'r dysgwyr anoddaf i ddarparu dysgu o bell a dysgu cyfunol ar eu cyfer. Yn yr achosion hyn, efallai na fydd medrau iaith dysgwyr yn eu galluogi i ddeall deunyddiau ysgrifenedig yn llawn. Gallai fod angen cymorth arnynt gan athro i'w helpu i ddeall a dehongli'r deunyddiau. Efallai nad yw rhai dysgwyr a gyrhaeddodd fel ffoaduriaid yng Nghymru yn meddu ar lefelau uchel o lythrennedd yn eu mamiaith, ac er bod darparwyr wedi trefnu cyfieithu deunyddiau i'w mamiaith, nid yw dysgwyr o reidrwydd yn deall beth sy'n ofynnol ohonynt, oni bai bod rhywun ar gael a all ddarllen y wybodaeth iddynt.

39 Mae darparwyr wedi bod yn bryderus ynghylch colli cysylltiad â'r dysgwyr hyn, ac maent yn gweithio ar y ffyrdd y gallant ddarparu cyrsiau ar eu cyfer, fel eu bod yn parhau i ymgysylltu a gwneud cynnydd da. Mae hyn wedi cynnwys ffonio dysgwyr i gael sgwrs syml â nhw yn rheolaidd, neu ddarparu deunyddiau wedi'u symleiddio ar bapur ar gyfer dysgwyr sy'n canolbwyntio ar iaith allweddol y gallai fod eu hangen arnynt yn ystod y pandemig, ac y gall aelodau eraill o'u teulu, fel plant hŷn, eu helpu â nhw. Mewn ychydig o achosion, lle mae athrawon wedi gallu gweithio gyda dysgwyr â lefelau isel o iaith a llythrennedd, mae hyn weithiau wedi cynnwys y teulu, gydag aelodau eraill o'r teulu yn ymuno o bell.

## 4 Asesu gwaith dysgwyr ar-lein

40 Wrth i ddarparwyr ar draws y tri sector ôl-16 ddatblygu cyrsiau dysgu o bell a dysgu cyfunol, maent hefyd wedi dechrau datblygu ffyrdd i asesu gwaith dysgwyr a chael amcan o'u cynnydd ar-lein. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys cynnal profion medrau hanfodol a phrofion diagnostig ar-lein, trafodaethau un i un o bell â'u hathrawon, cyflwyno gwaith ysgrifenedig yn electronig, gwneud asesiadau ar-lein (er enghraifft, profion amlddewis), cyflwyno fideo yn darparu cyflwyniad llafar wedi'i gefnogi gan gyflwyniad ar ffurf pwyntiau bwled o waith a gwblhawyd, hunanasesiad ac asesu cyfoedion ar-lein. Pan mae dysgwyr wedi cyflwyno gwaith ysgrifenedig mewn ffolder electronig, mae athrawon yn darparu adborth anodedig.

**Cameo: Grŵp Llandrillo Menai – asesu a darparu adborth o bell ar waith dysgwyr addysg bellach**

Mae'r cameo hwn yn canolbwyntio ar grŵp bach o wyth dysgwr Ffiseg Safon Uwch sydd fel arfer yn mynychu campws Grŵp Llandrillo Menai yn Nolgellau. Mae'r coleg yn gwasanaethu poblogaeth sy'n cynnwys cyfran gref o siaradwyr Cymraeg. Mae athrawon yn darparu gwersi o bell trwy Google Classrooms. Mae pob un o'r dysgwyr yn y grŵp hwn wedi dewis gwneud eu hasesiadau yn Saesneg. I helpu dysgwyr i werthuso safon eu gwaith a'r gyfradd maen nhw'n gwneud cynnydd arni, mae Grŵp Llandrillo Menai wedi archwilio gwahanol ffyrdd o ddarparu adborth clir a mynych i ddysgwyr Safon Uwch ar eu gwaith, a ffyrdd o'u helpu i fonitro eu cynnydd. Mae'r dulliau hyn hefyd yn helpu'r coleg i goladu tystiolaeth ychwanegol y maent yn rhagweld y gallai fod yn ddefnyddiol fel rhan o'r broses i bennu graddau Safon Uwch ar gyfer blwyddyn academaidd 2020-2021.

I roi golwg cyfannol i ddysgwyr ar eu cynnydd, ym mis Medi 2020, cryfhaodd y coleg ei ddefnydd o bwyntiau monitro ffurfiol ddwywaith bob hanner tymor. Mae dysgwyr yn cyflwyno darn sylweddol o waith wedi'i asesu, ac athrawon yn coladu'r graddau ar ei gyfer yn ganolog trwy'r llyfr marcio electronig o fewn system 'eDRAC' y coleg. Pan fydd dysgwyr yn cael at y system, gallant weld eu cynnydd dros gyfnod a chael at ddolenni at fideos adborth personoledig am eu hasesiadau.

Mae athrawon yn defnyddio fideos adborth personoledig i helpu dysgwyr i fyfyrio ar eu gwaith, a'i wella. Mae pob fideo adborth yn para tua phum munud. Gall y dysgwr weld ei waith ysgrifenedig ac anodiadau'r athro. Mae'r athro yn rhoi sylwadau ar lafar ar y cryfderau, y camgymeriadau a'r camsyniadau yn y gwaith. Mae'r gallu i ddysgwyr gael mynediad at rannau o'r adborth a'u chwarae yn ôl yn helpu dysgwyr i ymgysylltu ag awgrymiadau'r athrawon ynglŷn â sut i wella eu gwaith. Mae athrawon yn cryfhau'r broses hon trwy ddarparu tasgau dilynol unigol ar gyfer y dysgwr sy'n canolbwyntio ar faes penodol y mae angen i'r dysgwr ei ddatblygu.

Dywed dysgwyr fod y dulliau hyn wedi gwella eu dealltwriaeth o'u cynnydd ers symud cyrsiau ar-lein. Mae hyn oherwydd bod y pwyntiau ffocws yn fwy mynych. I ychydig o ddysgwyr sydd wedi'i chael yn anodd gwneud digon o gynnydd yn y

gorffennol, mae hwn wedi bod yn offeryn effeithiol i hybu cymhelliant i ddal ati â'u hastudiaethau. Dywed dysgwyr eu bod yn teimlo'n bryderus ynglŷn â'r ansicrwydd ynghylch ennill eu graddau yn ystod y flwyddyn nesaf, a ph'un a fyddant dan unrhyw anfantais mewn graddau asesedig athrawon. Mae trefniadau ffurfiol, rheolaidd a thryloyw'r coleg ar gyfer monitro cynnydd yn darparu cysondeb a graddau o eglurder disgwyliadau i ddysgwyr, ar gyfer asesiadau yn ystod y cyfnod ansicr hwn, sy'n fuddiol.

41 O ganlyniad i'r amgylchiadau a grëwyd gan y pandemig, roedd rhai dysgwyr nad ydynt wedi cael y cyfle i gwblhau digon o waith asesedig yn ystod blwyddyn academaidd 2019-2020 i'w gyflwyno i'r sefydliad dyfarnu ar gyfer ei ddyfarnu. Mae darparwyr wedi gweithio i ddod o hyd i ffyrdd arloesol o asesu'r gwaith a oedd yn dderbyniol i'r sefydliadau dyfarnu. Creodd ychydig o ddarparwyr e-bortffolios y gallai'r dysgwyr roi enghreifftiau o'u gwaith ynddynt i'w hasesu. Galluogodd y portffolios y dysgwyr i gyflwyno gwaith mewn amrywiaeth o fformatau, er enghraifft gwaith ysgrifenedig, fideos y maent yn cyflwyno eu gwaith neu'n arddangos medr penodol ynddynt, ac animeiddiadau i ddangos sut maent wedi creu eitem. Ystyriodd darparwyr fod gormod o achosion pan nad oedd y sefydliadau dyfarnu yn ddigon hyblyg i gytuno ar ffordd ymlaen neu ddarparu arweiniad ynglŷn â sut i fodloni meini prawf y sefydliadau dyfarnu yn yr amgylchiadau. Mae hyn wedi gadael gormod o ddysgwyr yn aros i gwblhau eu cymwysterau a chael eu dyfarniadau yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021. Mewn llawer o achosion, mae hyn wedi digalonni dysgwyr, gan olygu nad ydynt wedi gallu gwneud cynnydd yn y swyddi maen nhw ynddynt, neu'n methu gwneud cais am swyddi sy'n gysylltiedig â'u cymwysterau.

42 Mewn ychydig o achosion, er enghraifft ar gyfer cwrs cwnsela lefel 3 a lefel 4, cytunodd y sefydliad dyfarnu i gynnig y darparwr i addasu'r asesiad allanol o'r asesiad gwreiddiol a gynigiwyd fel nad oedd y ffocws ar y gwaith yr oedd dysgwyr wedi'i wneud cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Cyflwynodd dysgwyr eu hasesiadau mewn ffolder wedi'i amgryptio ar wefan y darparwr. Galluogodd hyn athrawon a'r asesydd allanol i gwblhau'r ymarfer safoni yn gyfan gwbl ar-lein, ac i'r bwrdd arholi ddyfarnu eu cymwysterau i ddysgwyr yn brydlon.

## 5 Sicrhau ansawdd addysgu a dysgu ar-lein

43 Wrth ddatblygu ffyrdd o addysgu a dysgu ar-lein, mae darparwyr wedi dechrau archwilio ffyrdd o werthuso a sicrhau ansawdd yr addysgu, dysgu a phrofiadau dysgwyr ar-lein. Pan fydd dysgu cyfunol yn digwydd, mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n eu helpu i ddeall yr agweddau ar-lein ac wyneb yn wyneb ar y profiad. Mae hyn yn cynnwys arsylwi sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein, craffu ar waith dysgwyr, sesiynau 'gwrando ar ddysgwyr' a chynnal deialogau proffesiynol gydag athrawon.

44 Gan fod addysgu ar-lein yn brofiad newydd i lawer o athrawon, mae ychydig o ddarparwyr wedi cytuno ar systemau arsylwi gydag athrawon lle mae'r athro yn cofnodi ei sesiwn ar-lein, maent yn chwarae'r sesiwn yn ôl ac yn ei dadansoddi drostynt eu hunain ar ôl hynny. Mae'r arsyllwr yn gwylio'r recordiad hefyd. Mae hyn yn rhyddhau'r athro o'i ymatebion uniongyrchol i'r sesiwn a gallant ystyried y sesiwn o'r newydd. Gallent wneud hyn ar yr un pryd â'r athro, neu ar wahân. Wedyn, mae'r athro a'r arsyllwr yn cytuno ar amser sy'n gyfleus i'r naill a'r llall ohonynt i drafod eu harsylwadau a'u gwerthusiadau o'r sesiwn. Os oes modd, bydd yr arsyllwr wedi gorffen siarad â dysgwyr a chraffu ar eu gwaith cyn y cyfarfod ar-lein gyda'r athro. Mae'r arsyllwr yn dogfennu'r sgwrs broffesiynol ac yn ei rhannu â'r athro er mwyn i'r athro allu ychwanegu ei sylwadau. Pan fydd yr arsyllwr a'r athro yn cytuno bod agweddau arloesol ac effeithiol ar arfer, mae'r arsyllwr yn rhoi'r sesiwn wedi'i recordio mewn ffeil electronig yn ardal datblygiad proffesiynol ar-lein y darparwr. Fel hyn, gall staff rannu eu harfer â'i gilydd.

45 I sicrhau profiad cyfartal, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn gweithio gyda staff i ddatblygu codau ymarfer o ran arsylwi ar-lein. Mewn llawer o achosion, mae darparwyr yn addasu neu'n creu ffurflenni arsylwi newydd i ystyried cyfrwng yr addysgu a'r dysgu.

46 Mae datblygu'r defnydd o dechnoleg i gefnogi sicrhau ansawdd yn helpu athrawon a darparwyr i ddadansoddi a rhannu agweddau allweddol ar addysgu a dysgu. Maes o law, dylai'r newidiadau arwain at welliannau yn arfer bersonol athrawon, ac arfer y darparwr.

**Cameo: Datblygu sicrhau ansawdd ar gyfer addysgu a dysgu ar-lein trwy arfer fyfyriol yn St David's College**

Mae'r cameo hwn yn canolbwyntio ar y coleg yn cyflwyno trefniadau 'myfyrio ar wersi' ym mis Rhagfyr 2020 ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu. Yn ogystal â galluogi addysgu a dysgu o bell yn ystod y pandemig, cyflymodd y trefniadau addysgu a dysgu newydd ymdrech bresennol y coleg i ddefnyddio technoleg fideo i gynorthwyo sicrhau ansawdd, trwy alluogi athrawon i adolygu a gwerthuso agweddau ar eu haddysgu a'u dysgu. Yn rhan o'r trefniadau newydd, o fis Chwefror 2021, gall staff addysgu ddewis o blith 4 dull i werthuso eu haddysgu, dysgu a phrofiad myfyrwyr, sef:

- arsylwi gwers draddodiadol gydag arsyllwr penodedig yn bresennol yn gorfforol yn yr ystafell ddosbarth
- arsylwi o bell lle mae'r arsyllwr yn ymuno â'r wers gan ddefnyddio cymhwysiad fideo gynadledda yn yr un ffordd â dysgwyr sy'n ymuno o gartref
- hunanwerthusiad sy'n defnyddio gwerth wythnos o wersi a thri chlip fideo sy'n dangos egwyddorion addysgu a dysgu'r coleg
- hunanwerthusiad o wers benodol gyda ffocws ar yr addysgu a'r dysgu, gan ddefnyddio enghreifftiau o waith dysgwyr a'r adnoddau a ddefnyddiwyd

Mae athrawon yn defnyddio templedi hunanfyfyriol ar gyfer hunanwerthusiadau. Cefnogir pob un o'r pedwar opsiwn gan ddeialog broffesiynol rhwng yr athro ac uwch arweinydd neu arweinydd canol, ac yn ystod y rhain, maent yn cytuno ar gamau gwella, yn ogystal ag unrhyw arfer effeithiol y gellir ei rhannu â phobl eraill trwy 'arsyllfa ddysgu' electronig y coleg.

Nod y trefniadau gwerthuso hyn yw cynnal ffocws ar welliant parhaus a rhannu arfer effeithiol, ni waeth p'un a gaiff addysgu ei gyflwyno o bell neu wyneb yn wyneb.  Dywed y coleg fod defnyddio'r dulliau hyn yn golygu bod gan staff berchnogaeth sylweddol ar y broses, sy'n cefnogi eu lles.

## 6 Dysgu proffesiynol ar gyfer addysgu ar-lein

47 Dywed y rhan fwyaf o athrawon nad oedd ganddynt brofiad personol o naill ai addysgu na dysgu ar-lein cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Dywed y rhan fwyaf ohonynt nad oedd ganddynt y wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio'r cyfrwng.

48 Yn y cam 'adfer', mynychodd llawer o diwtoriaid hyfforddiant ar-lein a ddarparwyd gan gwmnïau masnachol a oedd yn canolbwyntio hyfforddiant ar nodweddion eu cynhyrchion, er enghraifft sut i rannu deunyddiau ar-lein, defnyddio offer ysgrifennu ar y cyd a rhoi dysgwyr mewn ystafelloedd ymneilltuo. Y ffurf hon ar hyfforddiant oedd yr un mwyaf uniongyrchol ar gael, ac er y bu'r hyfforddiant hwn yn ddefnyddiol o ran dysgu sut i ddefnyddio technoleg, nid oedd yn rhoi'r wybodaeth fanylach i athrawon am gynllunio a dulliau addysgu o bell a chyfunol.

49 Fe wnaeth llawer o athrawon oedd eisiau datblygu dealltwriaeth well o addysgu a dysgu ar-lein fynychu gweminarau a gynhelir gan Jisc, er enghraifft, a ddarparodd drosolwg mwy cynhwysfawr o faterion allweddol am addysgu ar-lein. Hefyd, dilynodd athrawon gyrsiau perthnasol a gynigir am ddim ar blatfformau fel OpenLearn a FutureLearn. Darparodd y rhain ystyriaeth fanylach o ddyluniad ac addysgeg cyrsiau ar gyfer dysgu ar-lein. Dywed llawer o athrawon a ddilynodd gyrsiau ar-lein dros y cyfnod hwn fod cael profiad o fod yn ddysgwr ar-lein eu hunain wedi rhoi safbwynt defnyddiol iddynt o ran eu helpu i adolygu eu harferion addysgu eu hunain.

50 Erbyn y cam 'adfer', roedd darparwyr sydd ag adrannau TG canolog, fel colegau addysg bellach, wedi rhoi systemau ac ardaloedd datblygiad proffesiynol ar waith ar-lein at ddefnydd eu staff. Mewn ychydig o achosion, roeddent wedi creu 'hyrwyddwyr digidol', sef aelodau staff ag arbenigedd TG da a allai gefnogi aelodau staff a oedd yn llai hyderus yn ddigidol ar sail un i un â phroblemau penodol. Nododd athrawon eu bod yn croesawu'r datblygiadau hyn gan y gallent rannu arfer, profiadau ac adnoddau ar draws adrannau, yn ogystal â gwella eu dealltwriaeth gyffredinol o faterion fel safonau neu ddiogelu digidol. Dywed athrawon mai manteision symud dysgu proffesiynol ar-lein oedd galluogi staff i ymuno â gweminarau yn fyw neu ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw. Trwy ymuno'n fyw, gallant drafod materion addysgegol sydd o ddiddordeb iddyn nhw gyda chydweithwyr o fewn eu sefydliad, neu'r tu allan, neu gallant ddefnyddio deunyddiau wedi'u recordio neu ailedrych arnynt i ymgysylltu ar eu cyflymdra eu hunain neu ddiweddaru eu gwybodaeth.

51 Yn gyffredinol, mae'r sector dysgu yn y gwaith wedi'i chael yn anos rhoi rhaglenni prentisiaeth ar-lein o ganlyniad i elfennau ymarferol helaeth y rhaglen ac asesiadau sy'n gysylltiedig â chymwysterau sy'n arddangos arbenigedd galwedigaethol neu broffesiynol. I gefnogi'r sector, datblygodd Jisc, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, gwrs addysgeg ddigidol peilot ar gyfer nifer fach o staff dysgu yn y gwaith i'w helpu i ddatblygu medrau addysgu ac asesu ar-lein sy'n benodol i sector. Gwahoddwyd pob deiliad contract arweiniol ar gyfer darpariaeth dysgu yn y gwaith i anfon cynrychiolydd ar y cwrs. Cynlluniwyd y cwrs fel rhaglen 'hyfforddi'r hyfforddwr', a'i nod oedd cael cyfranogwyr i rannu eu gwybodaeth â phobl eraill. Dywed cyfranogwyr eu bod wedi gweld y cwrs yn werthfawr iawn a'u bod wedi rhannu eu datblygiad proffesiynol gyda staff eraill yn eu sefydliadau a'u cwmnïau. Mae'r un

cwrs addysgeg ddigidol yn cael ei dreialu â phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned hefyd.

52 Yn ychwanegol, mewn ychydig o achosion, mae darparwyr dysgu yn y gwaith wedi gweithio ar draws cwmnïau i rannu profiadau a datblygu adnoddau dysgu proffesiynol priodol ar gyfer eu staff. Roedd gan lawer o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned systemau ar waith i rannu dysgu proffesiynol gan eu bod wedi gwneud hyn mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb cyn y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020. Mewn llawer o achosion, mae'r partneriaethau wedi rhoi'r dysgu proffesiynol ar-lein, a gall athrawon gael mynediad at wahanol ddigwyddiadau dysgu proffesiynol a deunyddiau wedi'u recordio sydd gan bartneriaid. Mae Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales, sy'n gweithio gyda'r holl bartneriaethau dysgu oedolion ledled Cymru, wedi datblygu ardal dysgu proffesiynol ganolog ddefnyddiol y gall eu hathrawon eu hunain ac athrawon eu partneriaid fynd atynt. Mae gan y cyfleuster hwn y potensial i helpu partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd am ddulliau addysgu, dysgu ac asesu ar-lein, yn ogystal â datblygu safonau ansawdd ymhellach.

**Cameo: Dysgu proffesiynol yng Nghwmni Hyfforddiant Cambrian**

Mae Cwmni Hyfforddiant Cambrian (CHC) yn ddarparwr dysgu yn y gwaith annibynnol yn y sector preifat. Nododd fod llawer o ddysgwyr, yn enwedig y rhai sydd â swyddi ymarferol, wedi bod yn amharod i fabwysiadu ffyrdd digidol o weithio yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig COVID-19 wedi golygu bod dysgwyr ar draws ystod lawn y sectorau diwydiant a lefelau astudio yn addasu'n gyflym i ddulliau dysgu o bell a dysgu cyfunol o ryngweithio a gweithio. Mae aelodau staff CHC wedi bod yn treialu modelau addysgu sy'n manteisio ar y gallu newydd hwn i ddod â dysgwyr at ei gilydd mewn amgylchedd digidol i wella dysgu a chefnogi lles.

Mae staff CHC wedi bod yn archwilio'r defnydd o sesiynau grŵp i gefnogi agweddau ar ddysgu sy'n gyffredin ar draws gwahanol raglenni ac mewn gwahanol sectorau, er enghraifft i addysgu am ofynion a deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Mewn un sesiwn o'r fath, mae staff CHC yn rhoi cyflwyniad i oblygiadau deddfwriaeth ar gyfer Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH). Gall dysgwyr mewn gwahanol leoliadau, ac sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau, ymuno â'r sesiwn, y mae dau o gynrychiolwyr CHC yn eu cyflwyno o bell. Mae staff yn defnyddio adnoddau amlgyfrwng, cydweithredol a chwisiau rhyngweithiol i helpu atgyfnerthu dysgu tra'n cynnal momentwm y sesiwn. Mae'r darparwr yn cynllunio i ymgorffori ystod o sesiynau tebyg ar-lein fel rhan o'i ddarpariaeth ar gyfer rhaglen 'Kick Start' a ariennir gan y llywodraeth i gefnogi pobl ifanc i mewn i gyflogaeth.

Yn ychwanegol, mae CHC yn manteisio ar allu a pharodrwydd unigolion a ddatblygwyd yn ddiweddar yn aml, i ymgysylltu â gweithio o bell, i helpu ei aelodau staff ddatblygu eu medrau Cymraeg. Fel rhan o sesiynau 'sgwrs dros baned' wythnosol o bell, mae siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sy'n dysgu'r iaith yn dod at ei gilydd i gynorthwyo'i gilydd ac ymarfer eu medrau Cymraeg. Ar ôl sefydlu'r sesiynau hyn ymhlith grŵp o 10 aelod o staff, mae'r darparwr wrthi'n ehangu'r rhain i gynnwys dysgwyr o bob cwr o Gymru. Mae'r sbardun yn gysylltiedig â'r pandemig i ddatblygu'r medrau a'r gallu i ddefnyddio dulliau gweithio ar-lein wedi galluogi

CHC i fanteisio ar yr hyblygrwydd a’r manteision a ddarperir gan y dechnoleg hon. Mae’r darparwr yn credu bod dysgu a fyddai’n digwydd yn annibynnol yn draddodiadol, neu ar sail un i un gyda swyddog hyfforddi, yn awr yn gallu cynnwys nifer o ddysgwyr a thiwtoriaid / swyddogion hyfforddi mewn ffordd gyfleus. Gan nad ydynt wedi eu cyfyngu gan yr angen i deithio mwyach, gall darparwyr wneud y gorau o wybodaeth a medrau arbenigol aelodau staff unigol i helpu dysgwyr ag agweddau penodol ar eu hastudiaethau. Gellir cyflawni hyn trwy fentora un i un, neu fel arall, ar sail grŵp addysgu, gyda dysgwyr sy’n gweithio mewn gwahanol sectorau yn dod at ei gilydd ar gyfer sesiynau unigol. O ganlyniad i fabwysiadu technoleg yn eang, gall swyddogion hyfforddi a thiwtoriaid gyflwyno sesiynau ar y cyd ac integreiddio ystod o adnoddau i wella addysgu, dysgu ac asesu.

**Cameo: Dysgu proffesiynol yn Y Coleg Merthyr Tudful**

Mae’r cameo hwn yn canolbwyntio ar sesiynau dysgu proffesiynol sydd â fformat bras cyffredin: cânt eu cynnal ar-lein, maent yn para am 30 munud ac yn cynnwys arddangos techneg, sy’n para 10 munud; disgrifio cynllunio, rhesymeg ac esblygu’r agwedd, sy’n para 5 munud; ac maent yn terfynu â thrafodaeth 15 munud yn seiliedig ar gwestiynau gan y cyfranogwyr. Mewn rhai achosion, mae’r darparwr yn gwneud recordiadau o’r sesiynau hyn er mwyn i’r rhai nad ydynt yn gallu mynychu’r digwyddiad byw eu gwylio yn ddiweddarach.

Mae adborth gan athrawon yn awgrymu bod y sesiynau amrywiol wedi darparu dewislen o gyfleoedd tanio cyflym i ddysgu am dechnegau a strategaethau defnyddiol i gynorthwyo eu haddysgu cyffredinol, ond yn benodol i gynllunio a chyflwyno sesiynau dysgu o bell a dysgu cyfunol yn fwy effeithiol. Mae arweinwyr dysgu proffesiynol yn annog athrawon i gynnwys y technegau newydd yn eu haddysgu i uchafu’r effaith ar ddysgu. Mae staff addysgu wedi ymateb yn frwdfrydig i’r fformat ar-lein byr hwn, gan ei ddisgrifio fel ‘ffordd anhygoel o ddefnyddiol o rannu gwybodaeth ac arfer effeithiol tra’n darparu atebion go iawn i rai o’r problemau rydym ni’n eu hwynebu ar hyn o bryd’.

Mae enghreifftiau o agweddau defnyddiol ar arfer dysgu o bell a dysgu cyfunol a gafodd eu nodi a’u rhannu trwy ddefnyddio’r trefniadau hyn yn cynnwys defnyddio technoleg newydd i olrhain gwaith dysgwyr ac adnabod bylchau yng ngwybodaeth dysgwyr yn gyflym. Er enghraifft, canolbwyntiodd sesiwn ar strategaethau holi effeithiol ar gyfer gosodiadau ar-lein, yn canolbwyntio ar ddefnyddio’r swyddogaeth ‘sgwrsio’ fel ffordd o asesu dealltwriaeth dysgwyr a chynyddu lefelau o ymgysylltu gweithredol. Nododd arweinwyr ddull da o athro yn defnyddio dyfais ddynodedig ar wahân i gyflawni gwahanol swyddogaethau yn ystod gwersi. Defnyddiodd yr athro gyfrifiadur i ddarparu ffrwd sain a fideo fyw o’r athro ar gyfer dysgwyr sy’n cysylltu o bell. Defnyddiodd yr athro gyfrifiadur llechen â sgrin gyffwrdd ar wahân gyda theclyn ysgrifennu i weld gwaith dysgwyr mewn amser real; defnyddiodd yr athro hyn i fonitro cynnydd dysgwyr ac anodi eu gwaith, gan roi adborth ysgrifenedig cydamserol iddynt. Defnyddiodd yr athro ffôn clyfar i fonitro ac ymateb i’r ‘sgwrsio’ ymhlith dysgwyr a oedd yn cysylltu o bell. Tra oedd yr athro’n gallu gwneud yr un fath gan ddefnyddio un ddyfais, mae’r dyraniad ar wahân yn helpu athrawon i osgoi oedi sy’n gallu tarfu ar fomentwm y sesiwn, ac yn darparu dulliau cyfathrebu amgen pe bai un ddyfais yn methu.

# 7 Cymorth ar gyfer staff ac arweinwyr

53 Ers dechrau'r cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, mae darparwyr wedi rhoi systemau ffurfiol ac anffurfiol ar waith i gefnogi eu staff. Yn ystod y cyfnodau clo, maent wedi cynnal y cyfarfodydd hyn ar-lein; yn y cyfnodau pan allai darparwyr agor lleoliadau, mae staff wedi cael y cyfle i gyfarfod â chydweithwyr a rheolwyr llinell ar sail un i un gan ystyried arferion diogel COVID-19.

54 I sicrhau nad oedd athrawon wedi eu hynysu, yn enwedig yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, sefydlodd uwch arweinwyr systemau cyfathrebu 'pyramid' lle trefnodd rheolwyr llinell sesiynau ffurfiol gyda staff bob wythnos neu bob pythefnos i drafod gwaith a lles yr aelod staff. Yn ystod y cam 'achub' cychwynnol, soniodd llawer o staff wrth reolwyr llinell am eu pryderon am ddysgwyr mwy difreintiedig ac anodd eu cyrraedd o fewn eu grwpiau; nid oedd gan lawer ohonynt strategaethau ymdopi da, a'u hathro oedd eu hunig bwynt cyswllt rheolaidd. Dywedodd y rhan fwyaf o staff eu bod yn teimlo wedi eu gorlethu gan ba mor anferth oedd y baich gwaith yn sgil trosglwyddo eu haddysgu ar-lein, tra'n sicrhau ar yr un pryd bod eu dysgwyr yn parhau i ymgysylltu, gwneud cynnydd ac ennill eu cymwysterau, ynghyd â'r bygythiad o ddal COVID-19 a delio â materion yn eu bywydau eu hunain, fel addysgu gartref, gofalu am berthnasau eraill. Achosodd y materion hyn lawer o straen i staff. Cydnabuwyd y problemau hyn gan Lywodraeth Cymru, a darparodd £2 filiwn ar gyfer addysg bellach, yn ogystal â chyllid dilynol i ddarparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned i gefnogi iechyd meddwl a lles. O ganlyniad, trefnodd llawer o ddarparwyr i'w staff allu cael sesiynau cwnsela, a darparu dolenni i ddosbarthiadau lles ar-lein, fel ymwybyddiaeth ofalgar, ioga a Pilates, yn ogystal â phwysleisio manteision ymarfer corff a bwyta'n iach. I oresgyn yr arwahanrwydd a deimlai llawer o staff, trefnodd darparwyr gyfarfodydd anffurfiol hefyd mewn llawer o achosion, fel grwpiau 'coffi a sgwrsio', lle gallai staff gyfarfod â chydweithwyr a chymdeithasu fel y byddent mewn ystafell staff.

55 Mae cychwyn y pandemig ym mis Mawrth 2020 wedi rhoi uwch arweinwyr ar draws y sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned, dan bwysau sylweddol. Yn y cam achub, bu'n rhaid iddynt ysgogi gweithdrefnau brys mor gyflym ag y bo modd i sicrhau lles staff a dysgwyr, a sicrhau dysgu o bell. Tra oeddent yn y cam achub ac adnewyddu, bu'n rhaid iddynt ysgogi mesurau i wneud safleoedd yn ddiogel o ran COVID-19 ar gyfer cyflwyno ar y safle ar raddfa lawn o fis Medi 2020. O 19 Rhagfyr 2020, bu angen iddynt adfer mesurau ar gyfer dysgu o bell yn nhymor y gwanwyn 2021 wrth i Gymru ddychwelyd i gyfnod clo llawn. Yn sgil cyhoeddiad y Gweinidog ar 5 Chwefror 2021 am ddychwelyd yn raddol i ddysgu galwedigaethol yn y sector ôl-16 o 22 Chwefror, mae angen i uwch arweinwyr wneud addasiadau pellach i ailddechrau dysgwyr i ddysgu ar y safle yn raddol. Mae heriau penodol sy'n wynebu uwch arweinwyr mewn colegau a dysgu yn y gwaith yn cynnwys cwblhau a gweithredu trefniadau i ddychwelyd i weithrediadau diogel ar draws nifer o safleoedd mewn sawl ardal ddaearyddol sy'n cynnwys ystod eang o gyfleusterau.

56 Trwy gydol yr anawsterau a achoswyd gan yr amgylchiadau hyn, mae uwch arweinwyr wedi gwerthfawrogi cyfleoedd i gyfarfod â staff cyfatebol ar draws eu sectorau eu hunain a sectorau ôl-16 eraill i rannu materion a syniadau. Hefyd, maent wedi gwerthfawrogi'r ddeialog gydag Estyn trwy gyfarfodydd ar-lein gydag arolygwyr cyswllt, a chyfarfodydd ar wahân gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ymwybodol o'r problemau uniongyrchol yn gysylltiedig â chyflwyno addysgu a dysgu, a helpu eu datrys. Dywed uwch arweinwyr eu bod wedi ffurfio eu grwpiau cymorth eu hunain hefyd i rannu materion gwaith, datrys problemau a 'jest cael sgwrs' pan fu angen iddynt wneud hynny i gynnal eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain, yn ogystal â manteisio eu hunain ar ystod y cyrsiau a gynigir ar gyfer lles.

# 8 Dysgu ar gyfer y dyfodol a'r camau nesaf

57 Mae'r adran hon yn ystyried rhai o ddeilliannau cadarnhaol y mae'r sectorau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned wedi eu nodi yn sgil y rheidrwydd i fynd ag addysgu a dysgu ar-lein. Hefyd, mae'n ystyried rhai o'r cwestiynau y gallai fod angen i'r sector ôl-16 fynd i'r afael â nhw wrth iddo symud o ran dychwelyd at addysg ar y safle, ac ymdopi â byw â COVID-19.

58 Teimlai'r rhan fwyaf o ddarparwyr y siaradom â nhw, tra'n ymchwilio i brofiadau o symud at ddysgu o bell a dysgu cyfunol, fod yna agweddau ar ddysgu ar-lein y gallant wella arnynt ac y gallent eu cynnwys yn eu cwricwlwm a'u harferion yn y dyfodol. Fe wnaethant nodi mai blaenoriaeth allweddol i fynd i'r afael â hi yn y dyfodol yw sicrhau bod caledwedd a meddalwedd ar gael i'r holl ddysgwyr a staff i'w defnyddio ar gyfer dysgu ac ymchwilio ar-lein, pe bai darparwyr yn parhau i gynnwys elfen o ddysgu o bell neu ddysgu cyfunol i ymestyn eu cynnig cwricwlwm. Mae darparwyr wedi dechrau cynnwys cwestiynau ar gyfer ymgeiswyr i gyrsiau am y mathau o gyfrifiaduron, cyfrifiaduron llechen electronig a ffonau symudol sydd ganddynt fel bod darparwyr yn archwilio statws digidol dysgwyr o'r cychwyn. Maent yn rhagweld y gallai fod angen iddynt roi cynllun benthyca neu gynllun cymorth ariannol ar waith fel bod ffordd i ddysgwyr sydd dan anfantais yn ddigidol allu cael mynediad at ddysgu ar-lein. Mae hyn yn eu galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol i gefnogi addysgu a dysgu ar-lein.

59 Dywed darparwyr wrthym eu bod wedi dechrau cynnwys codau ymddygiad hefyd, yn cynnwys materion yn ymwneud â diogelu, yn eu llawlyfrau athrawon a dysgwyr, ac mewn hyfforddiant staff a sesiynau ymsefydlu gyda dysgwyr. Mae hyn yn galluogi pawb sy'n cymryd rhan mewn dysgu ar-lein i gael dealltwriaeth glir o ddisgwyliadau o'r cychwyn am bethau fel baich gwaith athrawon a safonau ymddygiad dysgwyr ar-lein.

60 Hefyd, mae darparwyr wedi darganfod bod darparu cyrsiau dysgu cyfunol neu ddysgu o bell wedi bod yn fwy deniadol i rai o'u dysgwyr na mynychu sesiynau ar y safle. Y dysgwyr hyn, er enghraifft, yw'r rhai ar gyllideb gyfyngedig ac y mae'r pellterau teithio iddynt gyrraedd campysau, neu leoliadau lle caiff sesiynau eu haddysgu yn ddrud, neu oedolion sy'n dysgu'n rhan-amser ac sydd wedi'i chael yn haws integreiddio eu dysgu ag ymrwymiadau eraill, fel gwaith, bywyd teuluol, gofalu am berthnasau oedrannus. Mae darpariaeth ar-lein yn y gaeaf hefyd yn golygu nad oes rhaid i ddysgwyr fynd allan mewn tywydd garw, a gallant ddefnyddio'r amser yn fwy cynhyrchiol mewn perthynas â'u dysgu. Er bod darparwyr yn gweld yr angen i sicrhau bod rhaglenni galwedigaethol penodol yn cael eu cynnal mewn lleoliadau yn y gwaith, maent hefyd yn cydnabod, ar sail profiad y pandemig, y gellir cyflwyno elfennau damcaniaethol a medrau hanfodol y rhaglenni ar-lein.

61 Yn ychwanegol, roedd llawer o ddarparwyr a siaradodd â ni yn cydnabod bod dysgwyr o ardaloedd pellach nag ardaloedd daearyddol uniongyrchol y darparwyr yn gallu ymuno â chyrsiau yr oedd wedi bod yn anodd iddynt gael mynediad atynt neu ddim ar gael iddynt yn y gorffennol. Mewn addysg bellach a dysgu yn y gwaith,

roedd dysgwyr a staff o wahanol gampysau a safleoedd yn y gwaith yn gallu astudio gyda'i gilydd yn hytrach na mewn grwpiau daearyddol ar wahân. Mewn dysgu oedolion yn y gymuned, sylweddololodd partneriaethau y gallent weithio gyda'i gilydd yn y dyfodol i gynnig mynediad i ddysgwyr ledled Cymru, y DU ac yn fyd-eang, at gyrsiau na fyddent efallai wedi gallu cael mynediad atynt yn hawdd cyn y pandemig. Mae gan hyn y potensial i leihau dyblygu diangen tra'n darparu ar gyfer ystod fwy o ddysgwyr.

62 Achosodd y pandemig i ddarparwyr ar draws y sector ôl-16 symud yn gyflym iawn i ddysgu ar-lein. Fel y nodwyd eisoes, roedd hyn yn golygu ar y cychwyn fod darparwyr yn canolbwyntio ar ddod o hyd i galedwedd a meddalwedd briodol ar gyfer cyflwyno cyrsiau. Gwnaeth hyn hi'n angenrheidiol addasu cyrsiau a rhaglenni roedd dysgwyr eisoes yn eu hastudio i gyflwyno ar-lein. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yr ydym wedi siarad â nhw yn cydnabod y bu anawsterau â hyn o ran cydlyniaeth ac ansawdd, a'i bod yn llawer anos trosglwyddo rhai cyrsiau a rhaglenni i ddarpariaeth ac asesu ar-lein oherwydd eu natur, er enghraifft rhaglenni galwedigaethol. Mae hyn wedi arwain at sylweddoli, wrth ddarparu dysgu ar-lein yn y dyfodol, bod angen mynd i'r afael â dyluniad dysgu cyrsiau a rhaglenni o'r fath, yn cynnwys asesu ar-lein sy'n dderbyniol i gyrff dyfarnu, fel eu bod yn addas at eu diben. Mae darparwyr yn cydnabod y bydd angen iddynt gydweithio â darparwyr eraill yn eu sectorau i gyflawni hyn.

63 Mae'r symud brys i ddysgu ar-lein hefyd wedi arwain at ychydig o enghreifftiau o newidiadau cadarnhaol wrth sicrhau ansawdd cyrsiau a rhaglenni, ac at ddysgu proffesiynol. Mae gweithdrefnau newydd, fel sesiynau recordio, yn galluogi'r athro i adolygu a myfyrio ar eu haddysgu eu hunain cyn cynnal trafodaeth broffesiynol gyda'i reolwr llinell. Yn ychwanegol, gall darparwyr, gyda chytundeb eu staff, greu storfa ar-lein o arfer effeithiol y gall staff gyfeirio ati yn ôl yr angen, sy'n arwain at ddealltwriaeth ar y cyd o arfer effeithiol.

64 Nid yw'r cwestiynau sy'n dilyn yn rhestr hollgynhwysfawr, ond rydym ni yn eu cynnig fel sbardunau ar gyfer trafodaeth am y ffyrdd ymlaen a dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y sector ôl-16. Y cwestiynau yw:

- Pa le sydd gan ddysgu o bell a dysgu cyfunol mewn addysg yn ein sectorau yn y dyfodol?
- Beth sydd wedi gweithio'n dda mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol, a pham?
- Beth sydd heb weithio'n dda mewn dysgu o bell a dysgu cyfunol, a pham? A oes yna unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i wella?
- Os ydym ni am gadw agweddau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn ein cwricwlwm a'n cynlluniau rhaglen, pa faterion allweddol mae angen i ni eu hystyried?
- Ydym ni'n gallu meddwl yn ehangach a dod o hyd i ffyrdd y gallwn ddelio ag agweddau ymarferol ar ddysgu galwedigaethol ar-lein yn hyderus?
- Beth yw manteision ac anfanteision defnyddio dysgu o bell a dysgu cyfunol yn ein cwricwlwm a chynlluniau rhaglen?
- Sut ydym ni'n sicrhau ansawdd addysgu a dysgu ar-lein yn effeithiol?
- Sut ydym ni'n mesur ymgysylltu â dysgwyr ac effaith dysgu o bell a dysgu cyfunol ar ddysgu a datblygu medrau?

- Beth yw goblygiadau ariannol cadw agweddau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol yn ein cwricwlwm a'n rhaglenni?
- Beth mae angen i ni ei roi ar waith i sicrhau bod ein dysgwyr bregus, dan anfantais ac anodd eu cyrraedd, yn gallu manteisio ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol pan fydd angen, neu fel dewis?
- Beth yw'r goblygiadau i'n sefydliad neu'n partneriaeth o ran datblygu ein systemau TG i ymdopi â darparu cysylltiadau dibynadwy er mwyn i staff a dysgwyr allu gweithredu dysgu o bell a dysgu cyfunol yn llwyddiannus?
- Beth yw goblygiadau cadw agweddau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol i ddysgwyr?
- Beth yw goblygiadau cadw agweddau ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol i staff?
- Pa fathau o ddysgu proffesiynol y mae angen i staff ymgymryd â nhw fel eu bod yn hyderus i ddylunio, addysgu ac asesu dysgu o bell a dysgu cyfunol o ansawdd da i greu cyrsiau a rhaglenni sydd â chydlyniaeth?
- Ydym ni'n gallu gwneud hyn ar ein pennau ein hunain, neu a oes angen i ni gydweithio'n fwy effeithiol gyda darparwyr eraill yn y sector ôl-16 a sectorau eraill, fel y sectorau cyn-16 ac addysg uwch, i ddarparu cynnig ffocysedig o ddarpariaeth ar-lein yng Nghymru?
- Beth yw goblygiadau ein sefydliad neu'n partneriaeth yn cynnig cyrsiau dysgu o bell a dysgu cyfunol i ddarparwyr eraill yng Nghymru?

# Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

I gasglu tystiolaeth ar gyfer yr adroddiad hwn, yn ystod y cam adolygu (Mai 2020 – Medi 2020), cynhaliodd arolygwyr gyfres o alwadau ymgysylltu i siarad ag uwch arweinwyr mewn colegau addysg bellach, darparwyr dysgu yn y gwaith a phartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned ledled Cymru. Canolbwyntiodd y cyfarfodydd hyn o bell ar sut roedd darparwyr yn gweithio i gynnal ymgysylltiad dysgwyr, i barhau â dysgu a chynorthwyo staff yn y camau 'achub' ac 'adnewyddu', fel y diffinnir gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn galwadau ymgysylltu cychwynnol, cynhaliodd arolygwyr ail gyfarfod o bell yn ystod y cyfnod Medi – Hydref 2020 i gael gwybod mwy am lwyddiannau a heriau datblygu dysgu o bell a dysgu cyfunol o fewn y gwahanol sectorau. Ym mis Rhagfyr 2020, yn seiliedig ar y gwaith hwn, cyhoeddodd Estyn (2020a) adroddiad ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol (2020e). Gwaith ymgysylltu: Diweddariad ar y sector ôl-16 – hydref 2020 | Estyn (gov.wales)

Yn ystod y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2020 a mis Ionawr 2021, cysylltodd arolygwyr â sampl o bedwar darparwr o bob un o'r sectorau ledled Cymru i ddarganfod mwy o fanylion am lwyddiannau a heriau cyflwyno dysgu o bell a dysgu cyfunol, yn ogystal â newid arferion. I wneud hyn, bu arolygwyr yn peilota:

- cyfarfodydd ar-lein gydag uwch arweinwyr ac arweinwyr canol
- cyfarfodydd ar-lein gydag athrawon yn arwain cyrsiau a rhaglenni y barnodd darparwyr eu bod yn gweithio'n dda
- arsylwadau o bell o addysgu a dysgu ar-lein
- sesiynau 'gwrando ar ddysgwyr' o bell

Hefyd, rhoddodd arolygwyr wahoddiad i athrawon, tiwtoriaid, hyfforddwyr ac aseswyr o'r sector ôl-16 ledled Cymru, trwy allfeydd cyfryngau cymdeithasol Estyn, gofrestru a chymryd rhan mewn pedwar fforwm ar-lein i drafod dysgu o bell a dysgu cyfunol. Dyrannodd Estyn y staff/unigolion i bedwar grŵp fforwm gan sicrhau cydbwysedd o wasgariad daearyddol, sectorau a meysydd dysgu ym mhob grŵp.

Mae arolygwyr yn dymuno diolch i bob un o'r staff a'r dysgwyr a gymerodd ran mewn cyfarfodydd, arsylwadau a fforymau peilot ar-lein i ddarparu mewnwelediad i'w profiadau o ddysgu o bell a dysgu cyfunol mewn cyfnod digynsail.

# Atodiad 2: Llinell amser digwyddiadau arwyddocaol yn ystod y cyfnod Mawrth 2020 – Chwefror 2021

Gallwch ddod o hyd i linell amser fwy cynhwysfawr am ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 yma: https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/llinell-amser-coronafeirws-ymateb-llywodraeth-cymru-a-llywodraeth-y-du/

## Mawrth 2020

- Ataliwyd arolygiadau.
- Dechreuodd cyfnod clo cenedlaethol.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg atal cyfres arholiadau'r haf.
- Cyflwynwyd y cynllun ffyrlo.

## Ebrill 2020

- Cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai diwrnod canlyniadau 2020 Cymru ar gyfer myfyrwyr UG a Safon Uwch, ac ar gyfer myfyrwyr TGAU, yn unol â'r hyn a drefnwyd yn wreiddiol.

## Mai 2020

- Pennodd y Gweinidog Addysg ymagwedd ar gyfer meddwl am sut a phryd y byddai ysgolion a darparwyr addysg eraill yn ailagor, o'r enw ‘y fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynlluniau a heriau’ (Llywodraeth Cymru, 2020k).
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020b) ei Chynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y sectorau ôl-16, gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, prentisiaethau, cyflogadwyedd a dysgu oedolion. Mae'r strategaeth hon yn amlinellu tri cham, sef Achub, Adolygu ac Adnewyddu o Fawrth 2020 i Fawrth 2021.

## Mehefin 2020

- Lansiodd y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd 'Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc' (Llywodraeth Cymru, 2020m).
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020g) ganllawiau i gefnogi dychwelyd yn ddiogel i addysg bellach a dysgu yn y gwaith wyneb yn wyneb .
- Dechreuodd colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith ailagor ar gyfer dysgu wyneb yn wyneb o 15 Mehefin ar gyfer grwpiau dysgwyr blaenoriaeth yr oedd angen iddynt ddychwelyd i'r coleg neu ganolfannau hyfforddi i gyflawni asesiadau ymarferol er mwyn cwblhau'u cymwysterau, a'r dysgwyr hynny yr oedd angen cymorth ac arweiniad ychwanegol arnynt i aros mewn addysg.
- Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru (2020a) ei nodau a oedd yn sail i'r modd y byddai graddau TGAU a Safon Uwch yn cael eu cyfrifo yn haf 2020, ynghyd â'r gofynion ar gyfer y broses apeliadau.

## Gorffennaf 2020

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o £23 miliwn i gefnogi dysgwyr mewn colegau addysg bellach a'r chweched dosbarth. Ar gyfer dysgwyr yn y chweched dosbarth, cyrsiau galwedigaethol neu mewn colegau addysg bellach, byddai cyllid yn galluogi cynnydd mewn cymorth addysgu ac yn darparu offer digidol yn ogystal â chefnogi amrywiaeth o ymagweddau eraill ar gyfer dysgwyr yng Nghymru.
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau wedi'u diweddaru i gynorthwyo darparwyr addysg bellach (2020f) a darparwyr dysgu yn y gwaith (2020l) wrth iddynt barhau i baratoi ar gyfer tymor yr hydfref a thu hwnt. Roedd hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfer gweithredu'n ddiogel mewn dysgu ôl-16 o Fedi 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020h) a fframwaith strategol ar gyfer cyflwyno dysgu (2020e).
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2020a) ganllawiau ar ddysgu cyfunol ar gyfer sefydliadau addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned
- Cyhoeddodd Estyn gipolygon byr i'r modd yr oedd darparwyr addysg bellach (2020c), dysgu yn y gwaith (2020d) a dysgu oedolion yn y gymuned (2020b) wedi gweithio i gynorthwyo'u dysgwyr a'r gymuned yn ystod y pandemig COVID-19.

## Awst 2020

- Gwarantodd Gweinidog Addysg Cymru na fyddai gradd Safon Uwch derfynol dysgwr yn is na'i radd UG. Ar ôl gwrthwynebiad cyhoeddus yn dilyn cyhoeddi'r canlyniadau Safon Uwch, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg y byddai graddau Safon Uwch, UG, TGAU, y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru bellach yn cael eu dyfarnu ar sail Graddau Asesu Canolfannau.
- Cafodd canlyniadau TGAU a chanlyniadau Safon Uwch diwygiedig eu rhyddhau, ar sail asesiadau athrawon yn gyson â gweddill y DU. Ar Safon Uwch, bu cynnydd mewn canlyniadau hefyd, yn enwedig o ran y rheini a oedd yn cyflawni graddau A-A*. Cododd hyn yn sylweddol i 41.3% o gymharu â'r canlyniad a gyhoeddwyd yn wreiddiol, sef 29.9%, a ffigur o 27% yn 2019 (Cymwysterau Cymru, 2020b)
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid pellach i gefnogi ystod o wasanaethau, gan gynnwys £3.6 miliwn ar gyfer colegau addysg bellach, ar gyfer costau glanhau ychwanegol er mwyn sicrhau bod dysgwyr a staff yn gallu gweithio mewn amgylchedd diogel yn ystod y pandemig.
- Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru (2020f) ganllawiau wedi'u diweddaru i gefnogi gweithredu'n ddiogel mewn dysgu ôl-16 o Fedi 2020 a chyngor i athrawon a darlithwyr (Llywodraeth Cymru, 2020c) ac i ddysgwyr sy'n astudio UG, Safon Uwch a Bagloriaeth Cymru mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach.
- Yn dilyn cyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, diwygiodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i fynnu bod lleoliadau ac awdurdodau lleol yn ymgymryd ag asesiadau risg i bennu a ddylai gorchuddion wyneb gael eu hargymell ar gyfer eu staff a phobl ifanc mewn ardaloedd cymunedol, gan gynnwys trafnidiaeth ysgolion a cholegau.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg adolygiad annibynnol o'r trefniadau ar gyfer dyfarnu graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 yn ymwneud â chymwysterau cyffredinol, i'w gadeirio gan Louise Casella, sef cyfarwyddwr y Brifysgol Agored yng Nghymru.

## Medi 2020

- Darparwyd cyllid ychwanegol i golegau addysg bellach i gefnogi'r defnydd o orchuddion wyneb.

## Hydref 2020

- Cyhoeddwyd adolygiad addysg yr OECD (2020).

## Tachwedd 2020

- Arhosodd dysgwyr ôl-16 gartref am yr wythnos ar ôl hanner tymor fel rhan o'r 'cyfnod atal byr' cenedlaethol.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg na fyddai arholiadau diwedd blwyddyn ar gyfer dysgwyr sy'n astudio TGAU, lefelau UG neu Safon Uwch yn 2021. Yn lle arholiadau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithio gydag ysgolion a cholegau i ddwyn asesiadau wedi'u rheoli gan athrawon yn eu blaen, gan gynnwys asesiadau a fydd yn cael eu gosod a'u marcio'n allanol ond yn cael eu cyflwyno o fewn amgylchedd ystafell ddosbarth dan oruchwyliaeth athrawon.
- Cyhoeddwyd gweledigaeth strategol ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. https://llyw.cymru/addysg-hyfforddiant-ol-orfodol-gweledigaeth-strategol

## Rhagfyr 2020

- Penderfynodd y Gweinidog Addysg y byddai pob ysgol uwchradd a cholegau yn symud i ddysgu ar-lein ar gyfer wythnos olaf y tymor.
- Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad blynyddol (2020e) ac adroddiad diweddaru ar wahân ar ymateb darparwyr ôl-16 i COVID-19 (2020a).
- Aeth Cymru i mewn i gyfnod clo gyda'r holl ddysgu ôl-16 yn parhau ar-lein, ac eithrio i'r dysgwyr mwyaf bregus a'r rhai y mae angen iddyn nhw fynychu ar gyfer arholiadau.

## Ionawr 2021

- Cyhoeddwyd Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Haf 2020 ar gyfer Dyfarnu Cymwysterau Cyffredinol (Casella, 2020) (lyw.cymru/adolygiad-annibynnol-drefniadau-haf-2020-gyfer-dyfarnu-graddau-ac-ystyriaethau-ar-gyfer-haf).
- Darparwyd manylion ynglŷn â sut bydd y model Graddau a benderfynnir gan Ganolfannau yn gweithio ar gyfer ysgolion a cholegau sy'n asesu myfyrwyr ar gyfer TGAU, Safon Uwch a lefelau UG.

## Chwefror 2021

- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o £26.5 miliwn i gynorthwyo dysgwyr ar raglenni dysgu galwedigaethol a dileu rhwystrau a allai fod yn eu hatal rhag cwblhau eu cymwysterau yn y flwyddyn academaidd hon.  Bydd £2.5 miliwn ychwanegol hefyd yn cynorthwyo colegau a darparwyr hyfforddiant preifat yng Nghymru i ddarparu cymorth iechyd meddwl ychwanegol i gydnabod y materion iechyd meddwl cynyddol o ganlyniad i'r pandemig.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg £1m o gyllid ychwanegol ar gyfer colegau addysg bellach i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a dileu rhwystrau rhag dysgu oherwydd COVID-19.
- Dychwelodd dysgwyr mewn colegau addysg bellach a darparwyr dysgu yn y gwaith i'r safle i gwblhau asesiadau i ddangos cymhwysedd galwedigaethol neu broffesiynol o 22 Chwefror.

# Atodiad 3 – Adnoddau neu adroddiadau defnyddiol ar ddysgu o bell a dysgu cyfunol

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (2021) *Ymateb addysg i'r Coronafeirws: Goblygiadau i ysgolion yng Nghymru*

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Coronafeirws a Fi*

Comisiynydd Plant Cymru (2020) *Mynd arlein: rhwystrau a llwyddiannau wrth ddarparu dysgu arlein yn ystod cyfnod clo Haen 4 Ionawr 2021*

Comisiynydd Plant Cymru (2021) *Coronafeirws a Fi – Canlyniadau ein harolwg ym mis Ionawr 2021 – Comisiynydd Plant Cymru*

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru (2020) *Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell*

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn, Consortiwm Canolbarth y De, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW a GwE (2020) *Datblygu dulliau integredig i gefnogi dysgu cyfunol ar gyfer agor ysgolion yn raddol*

Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol, Estyn, Consortiwm Canolbarth y De, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, ERW a GwE (2020) *Modelau Dysgu Cyfunol*

Cymdeithas Ymchwil Addysg Prydain (2020): Casgliad o ymchwil agored yn canolbwyntio ar agweddau amrywiol ar ddysgu ac addysgu ar-lein

Education Policy Institute (2021) *Education re-opening and catch support across the UK*

Education Scotland (2020) *What Scotland Learned – 100 stories of lockdown*

Education Scotland (2020) *What Scotland Learned – building back better*

ETI (2020) *Post-Primary Remote and blended learning: curricular challenges and approaches*

Lyakhova, S. (2020) *Remote Teaching and Covid-19 Approaches to School Education*

Llywodraeth Cymru (2020) *Cynllun Cadernid Covid-19 ar gyfer y sector ôl-16: Canllawiau ar gyfer Dysgu Cyfunol*

Llywodraeth Cymru (2020) *Dysgu ac addysgu cyfunol: awgrymiadau ymarferol ar gyfer ymarferwyr addysgu, Rhagfyr 2020*

Llywodraeth Cymru (2020) *Dysgu ac addysgu cyfunol; canllaw byr, Gorffennaf 2020*

Llywodraeth Cymru (2020) *Egwyddorion sylfaenol o ran llunio dysgu cyfunol, Gorffennaf 2020*

Llywodraeth Yr Alban (2020) *National overview of practice in remote learning*

OECD (2020) *Education responses to COVID-19: Embracing digital learning and online collaboration*

OECD (2020) *Learning remotely when schools close: How well are students and schools prepared? Insights from PISA*

OECD (2020) *Teaching in Focus #2: How prepared are teachers and schools to face the changes to learning caused by the coronavirus pandemic?*

OECD (2020) *The impact of COVID-19 on education: insights from education at a glance 2020*

Ofsted (2020) *What's working well in remote education*

Ofsted (2021) *Remote education research*

QAA (2020) *Building a Taxonomy for Digital Learning*

UNESCO (2020) *Thinking about Pedagogy in an Unfolding Pandemic: An Independent Report on Approaches to Distance Learning During COVID-19 School Closures*

What works Clearinghouse (2021) *WWC Rapid Evidence Review of Distance Learning Programs Report*

Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid (2020) *Learning during the lockdown: real-time data on children's experiences during home learning*

Y Sefydliad Gwaddol Addysgol (2020) *Remote Learning: Rapid Evidence Assessment*

Ymddiriedolaeth Sutton (2020) *Learning in Lockdown*

Yr Adran Addysg (2020) *Remote education good practice*

Yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol (2020) *Literature review on the impact of COVID-19 on families, and implications for the home learning environment*

## Adnoddau ar-lein

**FutureLearn**

| Adnodd | Awduron | Amser Astudio | Lefel |
|---|---|---|---|
| Blended Learning Essential for Vocational Education and Training | Prifysgol Leeds wedi'i greu ar y cyd â Sefydliad Addysg UCL | 3 chwrs<br>10 wythnos | Canolraddol |
| The Online Educator: People and Pedagogy | Y Brifysgol Agored | 4 wythnos<br>4 awr yr wythnos | |
| A Digital Edge: Essentials for the Online Learner | Prifysgol Dinas Dulyn | 4 wythnos<br>4 awr yr wythnos | |
| How to create great content online | Sefydliad Codio Prifysgol Leeds | 2 wythnos<br>3 awr yr wythnos | |
| Blended Learning Essentials@ Getting Started | Sefydliad Addysg UCL<br>Prifysgol Leeds | 5 wythnos<br>4 awr yr wythnos | |
| Blended Learning Essentials: Embedding Your Practice | Sefydliad Addysg UCL<br>Prifysgol Leeds | 3 wythnos<br>4 awr yr wythnos | |
| Making Blended Education Work | Prifysgol Caeredin<br>Yr Undeb Ewropeaidd | 5 wythnos<br>2 awr yr wythnos | |
| **Micro-fanylion (Mae ffi am y cwrs hwn)** | | | |
| Online Teaching: Creating courses for Adult Learning | Y Brifysgol Agored, wedi'i chymeradwyo gan y Gymdeithas Technoleg Dysgu | 1 cwrs<br>12 wythnos | Ôl-raddedig |

Mae Jisc (www.jisc.ac.uk) yn darparu ystod ddefnyddiol o gyngor, arweiniad a hyfforddiant ar gyfer staff mewn perthynas â thechnolegau ar-lein a'u defnydd ledled y Deyrnas Unedig. Mae cyllid grant blynyddol Llywodraeth Cymru i Jisc yn galluogi darparwyr dysgu ôl-16 yng Nghymru i fanteisio ar ystod o wasanaethau, cymorth a hyfforddiant yn uniongyrchol gan Jisc.

**OpenLearn**

| Adnoddau | Oriau Astudio | Lefel |
|---|---|---|
| Am I ready to be a distance learner? | 3 | Rhagarweiniol |
| Building confidence in using online forums | 8 | Rhagarweiniol |
| The digital scholar | 24 | Canolraddol |
| Digital Skills: succeeding in a digital world | 24 | Rhagarweiniol |
| Getting started with online learning | 6 | Rhagarweiniol |
| Introduction to cyber security: staying safe online | 24 | Rhagarweiniol |

| | | |
|---|---|---|
| An introduction to Open Educational Resources (OER) | 6 | Uwch |
| Open Education | 40 | Uwch |
| Take your teaching online | 24 | Canolraddol |
| Teachers sharing resources online | 10 | Canolraddol |
| Themes and topics for working in virtual project teams | 4 | Uwch |
| Online teaching:  evaluating and improving courses | 12 | Ôl-raddedig |

# Geirfa

Canfu arolygwyr fod darparwyr ar draws y sector ôl-16 yn priodoli geiriau ac ymadroddion yn gysylltiedig â dysgu ar-lein â gwahanol ystyron mewn gwahanol gyd-destunau. I sicrhau eglurder, mae'r geiriau a'r ymadroddion a restrir yn yr eirfa hon yn cyfeirio at y diffiniad o'r geiriau a'r ymadroddion mae Estyn wedi eu defnyddio yng nghyd-destun yr adroddiad hwn.

| | |
|---|---|
| **Anghydamserol** | Dysgu sy'n digwydd oddi ar-lein |
| **Ar y safle** | Addysgu a dysgu sy'n digwydd mewn lleoliad darparwr ac mae'r dysgwr yn mynychu'n bersonol |
| **Ar-lein** | Yr holl weithgarwch addysgu a dysgu sy'n cael ei gyflwyno a'i gynnal gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| **Athro** | Mae'r gwahanol sectorau ôl-16 yn defnyddio ystod o wahanol eiriau, fel athro, tiwtor, hyfforddwr, mewn perthynas â'r rhai sy'n cyflwyno addysgu a dysgu. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'athro' yn generig i ddisgrifio pawb sy'n cyflwyno ac yn cefnogi dysgu a chynnydd dysgwyr |
| **Cydamserol** | Addysgu a dysgu sy'n digwydd pan fydd dysgwyr yn bresennol o bell ac / neu wyneb yn wyneb |
| **Dylunio dysgu** | Term sy'n cyfeirio nid yn unig at strwythuro gwybodaeth a chysyniadau i'w cyflwyno trwy'r cwrs, ond hefyd paru gweithgareddau i weithgareddau addysgu cydamserol ac anghydamserol i gefnogi dysgu effeithiol |
| **Dysgu cyfunol** | Cyflwyno sy'n digwydd gan ddefnyddio cyfuniad o addysgu a dysgu o bell ac ar y safle ar wahanol adegau |
| **Hybrid** | Cyflwyno sy'n digwydd gan ddefnyddio cyfuniad o gyflwyno wyneb yn wyneb o bell ac ar y safle ar yr un pryd |
| **O bell** | Addysgu a dysgu sy'n digwydd yn gyfan gwbl o bell gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| **Rhithwir** | Yr holl weithgarwch addysgu a dysgu sy'n cael eu cyflwyno a'u cynnal gan ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu |
| **Wyneb yn wyneb** | Addysgu a dysgu sy'n digwydd mewn lleoliad darparwr |

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau


BBC News (2020a) GCSEs and A-level exams: Teacher estimates to be used for Welsh grades. [Online]. Ar gael o: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-53807854 [Darllenwyd 21 Awst 2020]

BBC News (2020b) *'Not safe to reopen schools', warn teachers' unions.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.bbc.co.uk/news/education-52650259 [Darllenwyd 14 Mai 2020]

Beetham, H. a Sharpe, R. (eds.) (2020) *Rethinking Pedagogy for a Digital Age: Principles and Practice of Design*. 3rd ed., Oxford: Routledge.

Boettcher, J. V. a Conrad, R. M. (2016) *The Online Teaching Survival Guide: simple and practical pedagogical tips*. 2nd ed., California: Jossee-Bass.

Casella, L. (2020) *Adolygiad Annibynnol o drefniadau haf 2020 ar gyfer dyfarnu graddau, ac ystyriaethau ar gyfer haf 2021: Adroddiad terfynol Rhagfyr 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/adolygiad-annibynnol-o-drefniadau-haf-2020-ar-gyfer-dyfarnu-graddau-ac-ystyriaethau-ar-gyfer-2021-adroddiad-interim-hydref-2020.pdf [Darllenwyd 22 Chwefror 2021]

Cuevas, R. F. (2019) *Course Design Formula: How to teach anything to anyone online*. Learn and GetSmarter, Inc.

Cymwysterau Cymru (2020a) *Cymwysterau Cymru yn cyhoeddi nodau ar gyfer cyfrifo graddau a gofynion ar gyfer apelio*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/cymraeg/newyddion/cymwysterau-cymru-yn-cyhoeddi-nodau-ar-gyfer-cyfrifo-graddau-a-gofynion-ar-gyfer-apelio/

Cymwysterau Cymru (2020b) *Canlyniadau ar gyfer Safon Uwch, UG, TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau yng Nghymru – Haf 2020*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.qualificationswales.org/media/6458/canlyniadau-ar-gyfer-safon-uwch-ug-tgau-a-r-dystysgrif-her-sgiliau-yng-nghymru-haf-2020-trosolwg.pdf [Darllenwyd 7 Medi 2020]

Christopher, D. (2015) *The Successful Virtual Classroom How to design and Facilitate Interactive and Engaging Online Learning*. New York: American Management Association.

Estyn (2020a) *Gwaith ymgysylltu: Diweddariad am y sector ôl-16 – hydref 2020.* Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: *https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-12/Engagement%20work%20Post-16%20sector%20update%20%E2%80%93%20autumn%202020%20cy.pdf* [Darllenwyd 22 Chwefror 2021]

Estyn (2020b) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-bartneriaethau-dysgu-oedolion-yn-y [Darllenwyd 22 Chwefror 2021]

Estyn (2020c) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o golegau addysg bellach.* [Ar-lein]. Ar gael o: httpshttps://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-golegau-addysg-bellach?_ga=2.45155232.542850803.1615887628-1498397159.1615887628 [Darllenwyd 22 Chwefror 2021]

Estyn (2020d) *Cefnogi lles a dysgu yn ystod COVID-19 – dulliau o ddarparwyr dysgu yn y gwaith.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/cefnogi-dysgu/cefnogi-lles-dysgu-yn-ystod-covid-19-dulliau-o-ddarparwyr-dysgu-yn-y-gwaith?_ga=2.207644182.542850803.1615887628-1498397159.1615887628 [Darllenwyd 22 Chwefror 2021]

Estyn (2020e) *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2019–2020*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol/2019 2020?_ga=2.6309174.542850803.1615887628-1498397159.1615887628 [Darllenwyd 22 Chwefror 2021]

Estyn (2021) *Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles emosiynol dysgwyr: Gwaith darparwyr addysg bellach, dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19*. Caerdydd: Estyn. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cymorth-ar-gyfer-iechyd-meddwl-lles-emosiynol-dysgwyr [Darllenwyd 23 Mawrth 2021]

Kolb, D. A. (1984) *Experiential learning: Experience as a source of learning and development*. 2nd ed. New Jersey: Pearson FT Press.

Llywodraeth Cymru (2019) *Digidol 2030: Fframwaith strategol ar gyfer dysgu ôl-16 digidol yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/digidol-2030-fframwaith-strategol-ar-gyfer-dysgu-ol-16-digidol-yng-nghymru.pdf

Llywodraeth Cymru (2020a) *Canllawiau dysgu cyfunol ar gyfer darparwyr ôl-16.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/dysgu-a-sgiliau-ol-16/canllawiau-dysgu-cyfunol-ar-gyfer-darparwyr-ol-16 [Darllenwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2020b) *Cynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/cynllun-cadernid-covid-19-sector-ol-16.pdf

Llywodraeth Cymru (2020c) *Cynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16: cyngor i athrawon a darlithwyr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/cymwysterau-ol-16-canllawiau-i-athrawon-mewn-colegau-addysg-bellach-chweched-dosbarth-mewn-ysgolion [Darllenwyd 7 Medi)

Llywodraeth Cymru (2020d) *Cynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16: Dysgu ac addysgu cyfunol: canllaw byr.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/dysgu-o-bell/dysgu-a-sgiliau-ol-16/canllawiau-dysgu-cyfunol-ar-gyfer-darparwyr-ol-16

Llywodraeth Cymru (2020e) *Cynllun Cadernid COVID-19 ar gyfer y Sector Ôl-16: Fframwaith strategol ar gyfer darpariaeth dysgu o fis Medi 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/fframwaith-strategol-gyfer-darpariaeth-dysgu-medi-2020-ol-16.pdf

Llywodraeth Cymru (2020f) *Canllawiau ar weithredu'n ddiogel dysgu ôl-16 o fis Medi 2020*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/canllawiau-ar-weithredun-ddiogel-dysgu-ol-16-fersiwn-31-html [Darllenwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020g) *Canllawiau ar Ailddechrau Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith Wyneb yn Wyneb*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein].

Llywodraeth Cymru (2020h) *Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/cadw-dysgwyr-yn-ddiogel-rol-awdurdodau-lleol-cyrff-llywodraethu-a-pherchnogion-ysgolion-annibynnol-o-dan-ddeddf-addysg.pdf [Darllenwyd 5 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cymru (2020i) *Rhestr chwarae: Arolwg dysgu ac adnoddau ar-lein COVID-19 (2020): Canlyniadau a chamau nesaf*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/playlists/view/1c10303a-5cc1-4adc-8168-25986030855d/cy/1?options=CNIQ39k7rbEp4zsz8OdGxip83XDxyAM%252BxyuNqUgoOrvEtxGXwma9Q0UtNK7LrNnQH%252BXcQPNoyaUCwiveQkzR67GggMHYKlU1B4MtdFeH65QZWO7Z2Q2xIVmmEPYdM77cyN5j64sVKKg3uN5wVgXfZ4%252Bw6x24Oku9qTuPvejlUdoY8nULq5Ep6ER9mK%252BHslyTWAIQ6fJfRkmtwU1r1JawcQ%253D%253D [Darllenwyd 5 Mawrth 2020]

Llywodraeth Cymru (2020j) *Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (AHO) Gweledigaeth Strategol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-11/gweledigaeth-strategol-addysg-a-hyfforddiant-ol-orfodol.pdf [Darllenwyd 1 Mawrth 2021]

Llywodraeth Cymru (2020k) *Y fframwaith penderfyniadau ar gyfer y cam nesaf i addysg a gofal plant: ystyriaethau, cynlluniau a heriau*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-05/fframwaith-penderfyniadau-gyfer-cam-nesaf-addysg-gofal-plant.pdf [Darllenwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020l) *Dysgu seiliedig ar waith a phrentisiaethau: coronafeirws*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/dysgu-seiliedig-ar-waith-phrentisiaethau-coronafeirws [Darllenwyd 21 Awst 2020]

Llywodraeth Cymru (2020m) *Pecyn cymorth iechyd meddwl i bobl ifanc*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://hwb.gov.wales/repository/discovery?sort=recent&strict=1 [Darllenwyd 7 Medi 2020]

Llywodraeth Cymru (2021) *Arolwg Effaith Covid-19 ar ddysgwyr – Crynodeb o'r canlyniadau.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://llyw.cymru/effaith-covid-19-ar-ddysgwyr-arolwg-cynodeb-or-canlyniadau [Cyrchwyd 23 Mawrth 2021]

Llywodraeth y Deyrnas Unedig (2020) Statement from the UK Chief Medical Officers on schools and childcare reopening. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/news/statement-from-the-uk-chief-medical-officers-on-schools-and-childcare-reopening [Darllenwyd 7 Medi 2020]

OECD (2020) *Achieving the New Curriculum for Wales.* [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.oecd.org/publications/achieving-the-new-curriculum-for-wales-4b483953-en.htm [Darllenwyd 16 Hydref 2020]

Stein, J. a Graham, C. G. (2014) *Essentials for Blended Learning: A Standards Based Guide*. Oxford: Routledge.

The Quality Assurance Agency for Higher Education (2020) *Building a Taxonomy for Digital Learning*. Gloucester: The Quality Assurance Agency for Higher Education